



Office for  
Disability  
Issues

**Rhestr o faterion sy'n ymwneud ag adroddiad cychwynnol Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd  
Iwerddon**

**Ymateb Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon i'r rhestr o faterion**

## Cyflwyniad

1. Mae Llywodraeth Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon yn croesawu ei harchwiliad cyfnodol cyntaf o'r modd y gweithredir Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl (y Confensiwn) fel cyfle i drafod datblygiad parhaus hawliau pobl anabl mewn ffordd adeiladol.
2. Bydd Llywodraeth y DU yn defnyddio'r derminoleg 'pobl anabl' drwy gydol ei harchwiliad. Mae Llywodraeth y DU yn croesawu'r model cymdeithasol o anabledd, ac yn debyg i sefydliadau anllywodraethol (gan gynnwys Mekanwaith Annibynnol y DU a chymdeithas sifil sy'n ymwneud ag anabledd) mae'n credu mai'r derminoleg hon yw'r un sy'n cyd-fynd agosaf â'r model.
3. Mae'r ymateb hwn yn cynnwys cyfraniadau gan y Gweinyddiaethau Datganoledig. Hefyd, cyflogodd Llywodraeth y DU nifer o sefydliadau anllywodraethol i hyrwyddo ac annog mwy o gyfranogiad gan gymdeithas sifil yn y broses archwilio hon.

### A. Diben a Rhwymedigaethau Cyffredinol, Erthyglau 1-4 (mater 1a-dd)

4. **(a)** mae gan Lywodraeth y DU hanes hir o barchu hawliau dynol ac mae'n parhau i hyrwyddo'r model cymdeithasol o anabledd. Mae Llywodraeth y DU yn cynnal ei dealltwriaeth o syniadau newydd ynglŷn ag anabledd drwy ymgysylltu'n rheolaidd â phobl anabl a'u sefydliadau a rhannu gwybodaeth yn rhyngwladol. Mae gweithgareddau ymgysylltu diweddar yn cynnwys ymgynghoriad Gwella Bywydau<sup>1</sup> yn 2016/17, a geisiodd sylwadau ar y ffordd orau o helpu pobl anabl i gael gwaith a chamu ymlaen yn eu gyrfa.
5. **(b)** Llywodraethau tiriogaethau sy'n bennaf cyfrifol am ddiogelu a hyrwyddo hawliau dynol (gan gynnwys hawliau dynol pobl anabl) yn Nhiriogaethau Tramor Llywodraeth y DU.
6. **(c)** Fel egwyddor gyffredinol, nid yw Llywodraeth y DU yn ymgorffori cytundebau rhyngwladol mewn cyfraith ddomestig. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn corffori hawliau pobl yng Nghymru, Lloegr a'r Alban sydd ag unrhyw un o'r naw nodwedd warchoddedig i fyw yn rhydd o wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth a chael cyfleoedd cyfartal mewn cyfraith ddomestig. Mae'n sicrhau'n systematig y caiff hawliau pobl anabl eu hystyried gan awdurdodau cyhoeddus, yn genedlaethol ac yn lleol, drwy Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus<sup>2</sup>.
7. Yng Ngogledd Iwerddon, mae Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 yn nodi hawliau pobl anabl. Mae Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 yn gosod dyletswydd statudol debyg i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ar awdurdodau cyhoeddus pan fyddant yn cyflawni eu swyddogaethau. At hynny, mae Deddf Galluedd Meddyliol (Gogledd Iwerddon) 2016 yn ymgorffori elfennau o'r Confensiwn er mwyn sicrhau y caiff pobl anabl eu trin ar sail gyfartal.

---

<sup>1</sup> [https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/564038/work-and-health-green-paper-improving-lives.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/564038/work-and-health-green-paper-improving-lives.pdf)

<sup>2</sup> <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/section/149>.

8. Mae canllawiau ymgynghori Llywodraeth y DU yn nodi disgwyliadau clir bod swyddogion yn ystyried yr ystod lawn o bobl, busnesau a chyrrff gwirfoddol y mae polisiâu arfaethedig yn effeithio arnynt er mwyn sicrhau y gall pobl anabl gymryd rhan mewn unrhyw ymgynghoriad.
9. **(ch)** Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diffinio person anabl fel rhywun sydd â nam corfforol neu feddyliol, sy'n cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar ei allu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd<sup>3</sup>; mae'r diffiniad hwn yn cyd-fynd ag Erthygl 1<sup>4</sup>. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diogelu pobl rhag gwahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol ac yn gosod dyletswydd ar sefydliadau i ddarparu addasiadau rhesymol er mwyn galluogi pobl anabl i arfer eu holl hawliau yn well. Mae tribiwnlysoedd cyflogaeth a llysoedd sifil yn gwrandao ac yn datrys achosion lle mae rhywun yn credu eu bod wedi bod yn destun gwahaniaethu ar sail anabledd (p'un a ydynt yn anabl ai peidio). Mae'r Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu<sup>5</sup> a'r Gwasanaeth Cynghori a Chymorth Cydraddoldeb<sup>6</sup> yn rhoi cyngor a chymorth diduedd am ddim i bobl sy'n cyflwyno hawliadau. Gall y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) hefyd gynnal ymchwiliadau neu gymryd camau os yw'n ymwybodol o achos o wahaniaethu ar sail anabledd gan gyflogwr neu ddarparwr gwasanaeth.
10. **(d)** Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ddau adroddiad ar y dangosyddion sydd wedi'u nodi yn y Strategaeth Gwireddu Potensial<sup>7</sup>, sy'n cwmpasu chwe thema allweddol (sef addysg, cyflogaeth, incwm, iechyd a llesiant, dewis a rheolaeth, a chymunedau cynhwysol).
11. Cynhwysodd Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon ddangosydd anabledd yn y fersiwn ddrafft o'i Rhaglen Lywodraethu 2016-2021. Ymgynghorwyd yn helaeth â phobl anabl a'u teuluoedd ynghylch y cynllun gweithredu drafft cysylltiedig.
12. **(dd)** Yn yr ymateb i Adolygiad 'Choice' ymrwymodd Llywodraeth y DU<sup>8</sup> i sicrhau bod gofal diogel a phersonol o ansawdd uchel ar gael i bawb. Mae'r ddogfen, sy'n seiliedig ar bum Blaenoriaeth ar gyfer Gofal, yn pwysleisio bod angen cyfathrebu'n dda â chleifion a theuluoedd, cynnal adolygiadau rheolaidd o gynlluniau gofal a nodi pobl sy'n gyfrifol am ofal yn glir. Mae'r ymrwymiad i ddarparu gofal diwedd oes o ansawdd uchel ar gyfer pawb hefyd yn amlwg drwy fentrau fel y Rhaglen Adolygu Marwolaethau Pobl ag Anabledau Dysgu. Mae'r rhaglen yn galw am gynnal adolygiadau lleol o farwolaethau pobl ag anabledau dysgu a nodi cynlluniau gweithredu lle mae angen gwneud gwelliannau; mae pob un o ranbarthau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) wrthi'n profi'r broses hon ar hyn o bryd.

---

<sup>3</sup> <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/section/6>

<sup>4</sup> Yng Ngogledd Iwerddon, mae Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 yn nodi hawliau pobl anabl.

<sup>5</sup> <http://www.acas.org.uk/index.aspx?articleid=1461>

<sup>6</sup> <http://www.equalityadvisoryservice.com/>

<sup>7</sup> <https://www.gov.uk/government/collections/fulfilling-potential-working-together-to-improve-the-lives-of-disabled-people>

<sup>8</sup> <https://www.gov.uk/government/publications/choice-in-end-of-life-care>

13. Mae Cynllun Cyflawni Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofal Lliniarol a Diwedd Oes yn cwmpasu pob agwedd ar ofal o'r fath ac yn rhoi arian yn benodol ar gyfer gwasanaethau gofal lliniarol arbenigol.

## **B. Hawliau penodol**

### **Cydraddoldeb a pheidio â gwahaniaethu, Erthygl 5 (mater 2a-ch)**

14. **(a)** Mae polisi erthyly Llywodraeth y DU, mewn perthynas ag anabledd, ond yn wahanol i arfer safonol pan nodir nam “difrifol” ar y ffetws i ganiatáu erthyly heb derfyn amser. Nid yw nam difrifol wedi'i ddiffinio o dan y gyfraith; gwneir y penderfyniadau hyn gan ddefnyddio barn arbenigol dau feddyg mewn ymgynghoriad â'r cleifion, sy'n cael gwybodaeth a chymorth gan dîm amlddisgyblaeth sydd wedi'i hyfforddi'n briodol.
15. Yng Ngogledd Iwerddon, dim ond pan fydd yn angenrheidiol er mwyn diogelu bywyd y fenyw neu lle mae risg o effaith andwyol wirioneddol a difrifol hirdymor neu barhaol ar iechyd corfforol neu iechyd meddwl y fenyw y mae erthyly yn gyfreithlon.
16. **(b)** Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diogelu pobl rhag gwahaniaethu ar sail oedran, anabledd a rhyw, ac mae'n cynnwys mesurau diogelu arbennig sy'n ymwneud â chyflogaeth, darparu gwasanaethau, arfer swyddogaethau cyhoeddus ac addysg. Mae'n caniatáu gweithredu cadarnhaol a thriniaeth wahaniaethol gan alluogi cyflogwyr neu ddarparwyr gwasanaeth i fynd i'r afael ag anfantais sy'n ymwneud ag oedran, anabledd neu ryw, tangynrychiolaeth a lefelau isel o gyfranogiad. Mae hyn yn cefnogi cyfle cyfartal ac yn lleihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau, sy'n cyd-fynd â Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig (SDGs 10).
17. Mae Llywodraeth yr Alban wedi sefydlu Cronfa Mynediad i Swydd Etholedig er mwyn helpu pobl anabl i sefyll fel ymgeiswyr yn etholiadau Senedd yr Alban yn 2016 a 2021 a'r etholiad lleol yn 2017, (fel SDG 10.2)
18. **(c)** Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diogelu pob unigolyn, gan gynnwys pobl anabl, rhag gwahaniaethu hiliol, aflonyddu ac erledigaeth. Mae gan y DU gosbau troseddol am droseddau megis annog casineb hiliol ac ymosodiad gwaethygedig ar sail hir a difrod troseddol.
19. Ar ôl i Lywodraeth yr Alban gyhoeddi ei Fframwaith Cydraddoldeb Hiliol ym mis Mawrth 2016, cynhaliwyd gweithgareddau ymgysylltu croestoriadol a oedd yn cynnwys rhanddeiliaid ym maes anabledd.
20. **(ch)** Mae'r ddarpariaeth yn Neddf Cydraddoldeb 2010 ar gyfer 'dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer rhannau cyffredin o eiddo lesddaliadol' wedi cychwyn eto oherwydd diffyg eglurder

yn glŷn â'r goblygiadau ariannol ac ymarferol i landlordiaid; mae'r ddarpariaeth wrthi'n cael ei hadolygu ar hyn o bryd gan Lywodraeth y DU er mwyn asesu a oes modd ei rhoi ar waith.

21. Mae Gogledd Iwerddon yn ystyried cynigion y Comisiwn Cydraddoldeb ar gyfer Diwygiadau Deddfwriaethol i atgyfnerthu'r mesurau diogelu ar gyfer pobl anabl a geir yn Neddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995, yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r ffaith nad oes deddfwriaeth peidio â gwahaniaethu ar gyfer pobl anabl sy'n ymwneud yn benodol â thai yn cael ei lliniaru gan nifer o fentrau.

### **Menywod ag anableddau, Erthygl 6 (mater 3a-b)**

22. (a) Mae'r broses o ystyried rhwystrau sy'n benodol i fenywod wedi'i phrif ffrydio drwy Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (sy'n cyd-fynd ag SDG 5), yn ogystal ag anabledd. Mae polisiau rhyw-benodol Llywodraeth y DU yn ymgorffori'r model cymdeithasol o anabledd er mwyn dileu rhwystrau a diwallu anghenion menywod anabl. Caiff data a gesglir mewn perthynas â thrais a cham-drin eu dadgyfuno, sy'n ei gwneud yn bosibl i lefelau trais a cham-drin a ddioddefir gan fenywod anabl gael eu hystyried, gan eu cymharu ag eraill<sup>9</sup> (gweler Atodiad A).
23. Mae'r ddyletswydd statudol yn Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998<sup>10</sup> i roi sylw dyledus i'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal yn cynnwys cydraddoldeb rhwng pob person anabl (gan gynnwys menywod anabl) a phobl nad ydynt yn anabl.
24. Mae Dyletswyddau Penodol yr Alban o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth yr Alban gynnal a chyhoeddi Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Ymhlith y mesurau sy'n cyd-fynd ag SDG 5.1 mae cynnal a chyhoeddi data wedi'u dadgyfuno yn ôl rhyw<sup>11</sup>.
25. Yng Nghymru, cynhelir Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer pob polisi a rhaglen newydd fel un o ofynion Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 ac wrth adolygu polisiau a rhaglenni presennol. Dylai'r rhain nodi effeithiau croestoriadol negyddol posibl a mesurau lliniaru.
26. (b) Mae Strategaeth Trais yn erbyn Menywod a Merched Cymru a Lloegr yn mabwysiadu dull amlasiantaethol, traws-lywodraethol, gyda chymorth penodol i'r menywod a'r merched sydd wedi'u hallgáu fwyaf ac sy'n wynebu anfanteision lluosog (fel menywod a merched anabl). Mae

---

<sup>9</sup><https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/compendium/focusonviolentcrimeandsexualoffences/yearendingmarch2015/chapter4intimatepersonalviolenceandpartnerabuse#intimate-violence-in-the-last-year-by-personal-characteristics>

<sup>10</sup><http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/47/section/75>

<sup>11</sup><http://www.gov.scot/Topics/People/Equality/Equalities/DataGrid>

ymerwmiadau yn cynnwys rhoi cymorth arbenigol i'r dioddefwyr sydd fwyaf agored i niwed, gan eu galluogi i gael gafael ar wasanaethu a helpu comisiynwyr i gynnal asesiadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth o anghenion.

27. Yng Ngogledd Iwerddon, nod y Strategaeth Atal Trais a Cham-drin Domestig a Rhywiol (a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2016) yw creu cymdeithas lle nad yw trais domestig na rhywiol o unrhyw fath yn cael ei oddef. Mae'r darparu gwasanaethau ataliol ac ymatebol wedi'u teilwra ac yn sicrhau y caiff pob dioddefwr ei gefnogi ac y caiff cyflawnwyr troseddau eu dwyn i gyfrif.
28. Mae strategaeth 'Equally Safe' yr Alban i atal a dileu pob math o drais yn erbyn menywod a merched yn atgyfnerthu deddfwriaeth, a chyflwynwyd cronfa dreigl tair blynedd ar gyfer sefydliadau sy'n mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched.
29. Yng Nghymru, diogelir menywod anabl drwy'r Strategaeth Genedlaethol a Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015; nod y rhain yw gwella cysondeb ac ansawdd gwasanaethau a'u cydgysylltu'n well.

#### **Plant ag anableddau, Erthygl 7 (mater 4a-c)**

30. Mae Llywodraeth y DU yn rhoi cymorth ariannol i deuluoedd ar incwm isel (gan gynnwys y rhai sydd â phlant anabl) drwy fudd-daliadau gan gynnwys Lwfans Byw i'r Anabl, Credyd Treth Plant a Chredyd Cynhwysol. Mae mathau eraill o gymorth yn cynnwys:
  - Grant Cyfleusterau i'r Anabl er mwyn helpu i wneud cartrefi yn hygyrch;
  - gofal plant am ddim i blant anabl rhwng 2 a 4 oed, gan gynnwys gofal plant a ariennir gan Gronfa Mynediad ar gyfer Pobl Anabl Lloegr sy'n werth £12.5m;
  - grantiau gan Ymddiriedolaeth Cronfa'r Teulu i deuluoedd â phlant anabl, fel arfer i dalu am gyfarpar a gwyliau byr i deuluoedd;
  - help i dalu costau defnyddio gwasanaethau gofal iechyd.
31. Cyhoeddodd Gogledd Iwerddon ei Strategaeth Tlodi Plant<sup>12</sup> ym mis Mawrth 2016, gan gynnwys grantiau i deuluoedd ar incwm isel er mwyn helpu i dalu am eitemau hanfodol a chymorth addysgol ychwanegol ar gyfer plant anabl.
32. Mae'r Alban wedi ymrwymo<sup>13</sup> i wella'r system budd-daliadau anabledd ar gyfer plant anabl yn yr Alban ar ôl i bwerau gael eu datganoli.

---

<sup>12</sup> <https://www.communities-ni.gov.uk/publications/child-poverty-strategy>

<sup>13</sup> [https://consult.scotland.gov.uk/social-security/social-security-in-scotland/user\\_uploads/consultation-on-social-security-in-scotland---full-version.pdf](https://consult.scotland.gov.uk/social-security/social-security-in-scotland/user_uploads/consultation-on-social-security-in-scotland---full-version.pdf)

33. Mae Cynllun Cydraddoldeb Cymru ar gyfer 2016-2020<sup>14</sup> yn cynnwys yr amcan i leihau tlodi, lliniaru effeithiau tlodi a gwella amodau byw ar gyfer y bobl hynny sydd fwyaf mewn perygl o fyw mewn cartrefi incwm isel, yn enwedig pobl anabl a theuluoedd â phlant anabl.
34. (b) O dan y gyfraith mae'n ofynnol i bob ysgol yn Lloegr lunio polisi ymddygiad gan gynnwys mesurau i fynd i'r afael â bwlio. Mae ysgolion yn rhydd i ddatblygu eu strategaethau gwrthfwlio eu hunain, ond cânt eu dwyn i gyfrif drwy'r Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau. Mae hyn yn ategu gofynion yn Neddf Cydraddoldeb 2010 sy'n ei gwneud yn anghyfreithlon i ysgolion wahaniaethu yn erbyn disgyblion (neu ddarpar ddisgyblion) anabl, aflonyddu arnynt neu eu herlid mewn perthynas â derbyniadau; y ffordd y mae'n darparu addysg; mynediad at fanteision, cyfleusterau neu wasanaethau; gwahardd disgyblion; neu eu niweidio mewn unrhyw ffordd arall. Ceir rhwymedi drwy apelio i driwlynsoedd arbenigol; caiff penderfyniadau ynghylch derbyniadau a wneir o fewn y cynllun Addysg, Iechyd a Gofal eu gwranddo gan y triwlynys Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd (AAAA), a chaiff penderfyniadau ynghylch gwahardd eu hadolygu gan banel annibynnol o dan adran 52 o Ddeddf Addysg 2002.
35. Caiff y Dull Gwrthfwlio Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yr Alban ei gyhoeddi yn ddiweddarach eleni, gan annog mabwysiadu dull gwrthfwlio cyfannol, gan gynnwys bwlio sy'n seiliedig ar ragfarn. At hynny, mae Tribiwnlysoedd Anghenion Cymorth Ychwanegol yr Alban yn darparu rhwymedi ar gyfer gwahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion.
36. (c) Mae Deddf Plant a Theuluoedd 2014 yn sicrhau bod rhagdybiaeth gyffredinol yn y gyfraith o blaid addysg brif ffrwd, ac mae'r Cod Ymarfer ar gyfer AAAA yn nodi y dylai gweithwyr proffesiynol gynnwys rhieni ar bob cam o'r broses o gynllunio ac adolygu cymorth. Mae gan rieni yr hawl i ofyn am ysgol benodol, fel rhan o broses y cynllun Addysg, Iechyd a Gofal. Os nad oes gan blentyn neu berson ifanc ag AAAA gynllun Addysg Iechyd a Gofal, rhaid iddo gael ei addysgu mewn ysgolion prif ffrwd yn y rhan fwyaf o amgylchiadau. At hynny, mae'n ofynnol i ALLau gynnwys pobl ifanc a rhieni yn y broses o lunio'r cymorth a ddarperir, ac mae'n rhaid iddynt gyhoeddi 'Cynigion Lleol' sy'n nodi mewn un man wybodaeth am y ddarpariaeth y mae ALLau yn disgwyl iddi fod ar gael ym meysydd addysg, iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc ag AAAA.
37. 'Getting it right for every child'<sup>15</sup> yw dull gweithredu cenedlaethol yr Alban o wella canlyniadau i blant a phobl ifanc, sy'n sicrhau eu bod hwy (a lle y bo'n bosibl eu teuluoedd) yn ganolog i ddewisiadau hyddysg ynglŷn â'r cymorth sydd ar gael. 'Self-directed Support'<sup>16</sup> yw dull prif ffrwd yr Alban o ymdrin â gofal cymdeithasol, sy'n sicrhau y rhoddir dewisiadau a rheolaeth dros y ffordd y darperir eu gofal i blant y mae angen gofal cymdeithasol arnynt.

<sup>14</sup> <http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/equality/161214-strategic-equality-plan-cy.pdf>

<sup>15</sup> <http://www.gov.scot/Topics/People/Young-People/gettingitright/what-is-girfec>

<sup>16</sup> <http://www.gov.scot/Topics/Health/Support-Social-Care/Support/Self-Directed-Support>

38. Mae'r fframwaith statudol ar gyfer gofal a chymorth, a sefydlwyd gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn hyrwyddo "agenda llais a rheolaeth" drwy ei gwneud yn ofynnol i bobl anabl gael eu cynnwys mewn penderfyniadau ynghylch asesu a phennu eu cymorth.

#### **Codi ymwybyddiaeth, Erthygl 8 (mater 5)**

39. Mae Llywodraeth y DU wedi cynnal nifer o fentrau i godi ymwybyddiaeth, gan gynnwys:

- datblygu adnoddau codi ymwybyddiaeth, a nodir yng nghynllun gweithredu Llywodraeth y DU ar gyfer troseddau casineb;
- mae Disability Confident yn helpu cyflogwyr i gyflogi pobl anabl;
- mae adnoddau ar gael er mwyn i athrawon godi ymwybyddiaeth o anabledd ymhlith disgyblion;
- rhoddir hyfforddiant penodol ar sut i godi ymwybyddiaeth o awtistiaeth i staff mewn addysg blynyddoedd cynnar, addysg ysgol ac addysg ôl-16;
- caiff hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth o anabledd ei ddarparu mewn gorsafoedd rheilffyrdd a gan lawer o gwmnïau bysiau;
- mae hyfforddiant<sup>17</sup> sydd wedi'i anelu'n bennaf at staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol yn y GIG yn cynnwys modiwlau ar iechyd meddwl ac anableddau dysgu.

40. Yn Lloegr, mae rhaglen 'Dementia Friends' yn gwella dealltwriaeth pobl o ddementia. Mae ymgyrch codi ymwybyddiaeth Gogledd Iwerddon, 'Still Me', wedi'i hanelu at leihau stigma sy'n gysylltiedig â dementia. Mae gan yr Alban amrywiaeth eang o fentrau cymunedol, trefol a dinesig sefydledig sy'n ystyriol o ddementia a menter 'Dementia Friends' genedlaethol. Mae Cymru yn datblygu ei Chynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Dementia 2017-2022.

#### **Hygyrchedd, Erthygl 9 (mater 6)**

41. Mae gofynion adeiladu yn cefnogi'r nodau o sicrhau llety cynhwysol, diogel, cydnerth a chynaliadwy, yn unol ag SDG 11. Mae Rheoliadau Adeiladu yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff rheoli adeiladu ledled y DU archwilio'r gwaith sy'n cael ei wneud ar adeiladau newydd wrth iddo fynd rhagddo, gan sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau, gan gynnwys Rhan M ar hygyrchedd. Os na fodlonir y gofynion hyn, mae gan ALlau bwerau i erlyn<sup>18</sup> cwmnïau sy'n gwneud y gwaith, cyflwyno hysbysiad<sup>19</sup> i berchennog yr adeilad er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cyrraedd y safon ofynnol, cael gwared ag unrhyw waith nad yw'n cydymffurfio â'r gofynion neu roi dirwyon diderfyn. O ganlyniad, mae tai a adeiladwyd ers 2001 yn fwy tebygol o fod yn hygyrch; e.e. mae gan 93% o'r cartrefi a adeiladwyd ers 2011 doiled ar lefel y fynedfa (61% gynt)<sup>20</sup>.

---

<sup>17</sup> <https://www.disabilitymatters.org.uk/>

<sup>18</sup> <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1984/55/section/35>

<sup>19</sup> <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1984/55/section/36>

<sup>20</sup> Arolwg Tai Lloegr



42. Mae Llywodraeth y DU yn ymrwymedig i symud tuag at amgylcheddau adeiledig sydd mor hygyrch â phosibl. Mae mentrau'n cynnwys Cynllun Gweithredu ar gyfer Amgylcheddau Cynhwysol<sup>21</sup> sy'n gwneud arweinwyr y diwydiant yn gyfrifol am ledaenu dealltwriaeth o fanteision cydraddoldeb a hygyrchedd, a phrosiect Addysg i Weithwyr Proffesiynol ym maes yr Amgylchedd Adeiledig<sup>22</sup> sy'n hyrwyddo hyfforddiant dylunio cynhwysol ar gyfer gweithwyr proffesiynol y dyfodol ym maes yr amgylchedd adeiledig.
43. Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r Datganiad Polisi Cynllunio Strategol yn nodi'r cyd-destun ar gyfer pob cynllun datblygu lleol newydd a phenderfyniadau cynllunio, gan roi sylw penodol i anghenion pobl anabl. Mae Erthygl 6 o Orchymyn Gweithdrefn Ddatblygu Gyffredinol (Gogledd Iwerddon) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i ddatganiadau dylunio a mynediad gael eu llunio er mwyn esbonio sut yr ymdriniwyd â materion sy'n effeithio ar fynediad i bobl anabl mewn datblygiadau mawr.
44. Yn yr Alban, mae ALlau yn adolygu cynlluniau a gwaith adeiladu ar y safle, gan sicrhau y cyrhaeddir yr holl safonau perthnasol a nodir yn rheoliadau adeiladu'r Alban. Os na chyrhaeddir yr holl safonau perthnasol, mae gan ALlau bwerau o dan adran 27 o Ddeddf Adeiladu (yr Alban) 2003 i gyflwyno hysbysiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person perthnasol naill ai gydymffurfio neu gael gwared ar y gwaith.
45. Yng Nghymru, mae polisi cynllunio yn nodi y dylai pob cynnig datblygu gyflawni'r nod o sicrhau mynediad rhywydd i bawb: gan ddefnyddio Datganiadau Dylunio a Mynediad, goruchwyllo cydymffurfiaeth â Rheoliadau Adeiladu, a sicrhau bod Comisiwn Dylunio Cymru yn hyrwyddo gwaith dylunio a phensaernïaeth o safon uchel i'r sector cyhoeddus a'r sector preifat. Yn 2016, cydgysylltodd y Comisiwn hyfforddiant yn gysylltiedig â dylunio cynhwysol ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maes yr amgylchedd adeiledig.
46. Mae deddfwriaeth ynglŷn â hygyrchedd trafndiaeth wedi'i hatgyfnerthu; mae'r Rheoliadau Hygyrchedd Cerbydau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau bysiau lleol fod yn hygyrch ac mae Deddf Gwasanaethau Bysiau 2017 yn sicrhau bod gwybodaeth am fysiau lleol yn cael ei darparu ar ffurf glywadwy a gweladwy. Erbyn diwedd 2019, bydd gan 470 o orsafoedd rheilffyrdd fynediad heb risiau i bob platfform a rhyngddynt; sy'n cyfateb i tua 75% o deithiau (o gymharu â 50% yn 2005). Mae'n anghyfreithlon i yrwyr tacsis wrthod cludo cŵn cymorth wedi'u cofrestru (ac eithrio o dan amgylchiadau penodol) ac ni all gyrwyr tacsis sydd wedi'u dynodi'n rhai sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn godi tâl ychwanegol na gwrthod rhoi cymorth rhesymol.
47. Mae Gogledd Iwerddon yn datblygu Strategaeth Trafndiaeth Hygyrch, a fydd yn cynnwys cynllun gweithredu sy'n nodi mesurau i leihau rhwystrau i deithio. Mae gan Fforwm Cyngori Tacsis, a

---

<sup>21</sup> <https://www.gov.uk/government/news/creating-inclusive-buildings-and-design>.

<sup>22</sup> <https://www.gov.uk/government/collections/built-environment-professional-education-project>.

sefydlwyd yn ddiweddar, gynrychiolaeth barhaol gan bobl anabl hefyd, gan sicrhau eu bod yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu polisiau.

48. O ganlyniad i roi gwefan GOV.UK y Llywodraeth ar waith mae gwasanaethau'r llywodraeth bellach yn llawer mwy hygyrch. Bwriedir i'r wefan, sy'n dal gwybodaeth am wasanaethau a pholisiau ym mhob rhan o'r llywodraeth, addasu'n hawdd i wahanol ddefnyddwyr drwy gysylltu'n ddi-dor â thechnoleg gynorthwyol a galluogi defnyddwyr i addasu ei golwg. Drwy barhau i wella hygyrchedd ei gwasanaethau digidol, mae Llywodraeth y DU wedi creu cymuned ddigidol i'r DU gyfan er mwyn galluogi cydweithredu traws-lywodraethol a nodi'r gofynion ar gyfer ei phroses asesu gwasanaethau.

### **Cydnabyddiaeth gyfartal gerbron y gyfraith, Erthygl 12 (mater 7)**

49. Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yw prif ddeddfwriaeth Llywodraeth y DU ynglŷn â galluedd meddyliol; mae'n grymuso pobl i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain lle y bo'n bosibl, wrth ddiogelu pobl na allant wneud hynny. Mae Rheolau'r Llys Gwarchod sy'n ymwneud â dyfarniadau ynghylch dileu'r hawl i wneud penderfyniadau wedi'u hatgyfnerthu, sy'n ei gwneud yn ofynnol i farnwyr benderfynu ar y ffordd orau o sicrhau bod yr unigolyn yn cymryd rhan yn yr achos. Mae Llywodraeth y DU bellach yn ystyried argymhellion gan Gomisiwn y Gyfraith<sup>23</sup> i ddiwygio'r Ddeddf Galluedd Meddyliol er mwyn sicrhau mai dymuniadau a theimladau'r unigolyn yw'r brif ystyriaeth mewn unrhyw benderfyniad 'er lles' a chyflwyno fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau gyda chymorth. At hynny, mae ymateb Llywodraeth y Du i 'No Voice Unheard, No Right Ignored', a gyhoeddwyd yn 2015, yn nodi camau gweithredu i alluogi pobl ag anableddau dysgu, awtistiaeth a chyflyrau iechyd meddwl arfer yr un hawliau â phawb arall yn well.
50. Yng Ngogledd Iwerddon, daeth Deddf Gogledd Iwerddon (Gogledd Iwerddon) 2016 i rym ym mis Mai 2016. Mae'r broses o'i rhoi ar waith yn mynd rhagddi; ar ôl iddi gychwyn, bydd y Ddeddf yn diddymu ac yn disodli Gorchymyn Iechyd Meddwl (Gogledd Iwerddon) ar gyfer pawb dros 16 oed.
51. Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am bolisiau sy'n ymwneud â cheiswyr lloches a chadw ffoaduriaid. Ni chaiff ffoaduriaid cydnabyddedig eu cadw fel arfer. Mae'r polisi ar 'oedolion sydd mewn perygl mewn canolfannau cadw mewnfudwyr' yn ystyried bod pobl yn agored i niwed pan fyddant dan gadwad os ydynt yn dod o dan restr o ddangosyddion, sy'n cynnwys bod â chyflwr iechyd meddwl neu anableddau eraill. Dim ond pan fydd ystyriaethau sy'n ymwneud â mewnfudo a/neu bryderon ynghylch diogelwch y cyhoedd yn drech na phryderon eu bod yn agored i niwed y caiff pobl yr ystyrir eu bod yn agored i niwed eu cadw dan gadwad. Caiff pob ceisiwr lloches gyfle i gael cynrychiolaeth gyfreithiol tra bydd yn gwneud cais am loches ac, yn ddarostyngedig i feini prawf cyhoeddedig penodol (sy'n cynnwys profion modd a theilyngdod), mae cymorth cyfreithiol ar gael.

### **Mynediad i gyfiawnder, Erthygl 13 (mater 8a-ch)**

---

<sup>23</sup> Yn gymwys yng Nghymru a Lloegr.

52. **(a)** Mae Llywodraeth y DU yn helpu pobl gyda'r system gyfiawnder mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys drwy gymorth cyfreithiol, argaeledd cyfryngwyr i bobl sy'n agored i niwed a gwasanaethau digidol cynhwysol newydd. Mae cymorth cyfreithiol yn helpu pobl i gael mynediad i brosesau cyfiawnder drwy roi cyngor a darparu cynrychiolaeth ar gyfer y cyfryw faterion ag achosion sy'n honni gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae cyfryngwyr yn arbenigwyr ym maes cyfathrebu sy'n helpu tystion i ddeall y cwestiynau sy'n cael eu gofyn iddynt ac ymateb. Ar gyfer pobl sy'n ei chael hi'n anodd rhyngweithio â sianeli digidol, darperir opsiynau ar gyfer cymorth digidol a gynorthwyr er mwyn cynnal a gwella mynediad i gyfiawnder. Mae hyn yn amrywio o gymorth syml sy'n amrywio o gymorth i ddefnyddio'r ffôn i gymorth wyneb yn wyneb mwy dwys. Bydd y ddau am ddim, a chânt eu datblygu gyda chyfraniad helaeth gan ddefnyddwyr gwasanaethau.
53. Lansiodd Gogledd Iwerddon y cynlluniau Cyfryngwyr Cofrestredig ym mis Mai 2013 er mwyn helpu tystion sy'n agored i niwed (dros yr erlyniad a'r amddiffyniad), unigolion a ddrwgdybir a diffynyddion sydd â diffygion cyfathrebu sylweddol i gyfathrebu'n effeithiol wrth roi tystiolaeth mewn ymchwiliadau gan yr heddlu ac unrhyw dreial dilynol.
54. **(b)** Mae cymorth cyfreithiol sifil yn parhau i sicrhau bod pobl yn cael mynediad i brosesau cyfiawnder yn yr achosion mwyaf difrifol. Mae hyn yn cynnwys, yn amodol ar brofion modd a theilyngdod statudol, anghydfodau ag ALLau ynghylch gwasanaethau gofal cymunedol a honiadau o wahaniaethu sy'n ymwneud â thorri Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae Llywodraeth y DU yn gweithredu system talu ffioedd er mwyn helpu pobl na allant fforddio talu ffioedd i barhau i gael mynediad i brosesau cyfiawnder. Roedd adolygiad o'r modd y cyflwynwyd ffioedd tribiwnlysoedd cyflogaeth (a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2017) yn cynnwys ystyried effaith ffioedd ar bobl â nodweddion gwarchoddedig. Er ei fod yn bolisi llwyddiannus ar y cyfan, nododd yr adolygiad fod y gostyngiad yn nifer yr hawliadau tribiwnlys cyflogaeth yn fwy nag a ragwelwyd. Roedd ymgynghoriad o fewn yr adolygiad yn cynnwys cynigion i gynyddu'r trothwy incwm ar gyfer 'Cymorth gyda Ffioedd', y disgwyliid iddo fod o fudd i bobl anabl a phobl eraill mewn grwpiau incwm isel. Bydd diwygiadau rhagamcanol i system y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth yn symleiddio prosesau, gan wella mynediad i gyfiawnder.
55. Yn yr Alban, mae cymorth cyfreithiol sifil yn helpu i sicrhau cynrychiolaeth gan gyfreithiwr neu eiriolwr yn y llysoedd sifil, gan gwmpasu achosion a wrandewir gan Dribiwnlys Apeliadau Cyflogaeth yr Alban a'r rhai sy'n ymwneud â gwahaniaethu ar sail anabledd. Mae taliadau ychwanegol i dalu costau rhesymol cymorth cyfathrebu ychwanegol rhwng cyfreithiwr a'i gleient ar gael hefyd.
56. **(c)** Mae systemau ar waith i reithwyr anabl ddarparu gwybodaeth am yr addasiadau rhesymol sydd eu hangen arnynt, sy'n golygu bod modd gwneud trefniadau cyn iddynt wasanaethu ar y rheithgor. Gall rheithwyr ymweld â'r llys cyn i'r achos ddechrau er mwyn trafod addasiadau â staff y llys. Os na ellir gwneud yr addasiadau angenrheidiol yn y llys a nodwyd, efallai y caiff gwasanaeth y rheithiwr ei

dros glyddo i lys priodol gerllaw. Mae rheithwyr y mae angen cymorth trydydd parti arnynt yn yr ystafell gyd-drafod, fel dehonglydd iaith arwyddion, wedi'u hanghymwysu rhag gwasanaethu ar reithgor ar hyn o bryd oherwydd egwyddor y 13eg rheithiwr. O dan gyfraith gwlad<sup>24</sup> mae gan yr rheithgor yr hawl i gyd-drafod yn breifat ac mae'n gorfod gwneud hynny. Os bydd dieithryn, p'un a yw'n un o swyddogion y llys ai peidio, yn bresennol am gryn dipyn o amser yn ystod eu cyd-drafodaethau, bydd y rheithfarn yn annilys; mae llysoedd Llywodraeth y DU dan rwymedigaeth i beidio â gwneud addasiadau rhesymol o'r fath.

57. Yn yr Alban, bu gweithgor a gadeirir gan uwch farnwr yn ystyried sut i helpu a galluogi aelodau anabl o'r cyhoedd a phobl ag anawsterau cyfathrebu i gyflawni eu dyletswydd ddinesig fel rheithwyr.

58. **(ch)** Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi yn cymryd ei gyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 o ddifrif, gan roi canllawiau i staff ar y ddyletswydd i ystyried addasiadau rhesymol a sicrhau mynediad cyfartal i wasanaethau a chyfleusterau. Mae'r Coleg Barnwrol yn darparu canllawiau drwy ei 'Equal Treatment Bench Book'<sup>25</sup> i farnwriaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd ar bob agwedd ar driniaeth deg yn y llys sy'n cynnwys anabledd. Mae hefyd wedi datblygu deunyddiau (gan gynnwys e-ddysgu) sy'n cefnogi ei strategaeth bod unrhyw hyfforddiant yn cynnwys agweddau ar gyd-destun cymdeithasol barnu.

59. Yn yr Alban, mae sicrhau bod pawb sy'n ymddangos yn y llys yn cael ei drin yn gyfartal o'r pwys pennaf i'r Sefydliad Barnwrol ac yn un o gyfrifoldebau craidd y farnwriaeth<sup>26</sup>. Ceir canllawiau a chyngor ar gyfer swydd barnwr yn yr 'Equal Treatment Bench Book', sydd ar gael i'r cyhoedd ar wefan Barnwriaeth yr Alban<sup>27</sup>.

#### **Rhyddid a diogelwch yr unigolyn, Erthygl 14 (mater 9a-b)**

60. **(a)** Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn nodi'r mesurau diogelu y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn awdurdodi amddifadu pobl o'u rhyddid. Canlyniad penderfyniad gan y Goruchaf Lys yn 2014 yw bod cryn dipyn yn fwy o unigolion bellach yn perthyn i gategori pobl y mae angen i'r Llys awdurdodi eu hamddifadu o'u rhyddid. Yn sgil beirmiadaethau, gofynnodd Llywodraeth y DU i Gomisiwn y Gyfraith ymchwilio a gwneud argymhellion ar y broses. Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mawrth 2017 ac mae wrthi'n cael ei ystyried ar hyn o bryd.

61. Yng Ngogledd Iwerddon, bydd Deddf Galluedd Meddyliol (Gogledd Iwerddon) 2016, ar ôl iddi gychwyn, yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer pobl heb alluedd meddyliol.

<sup>24</sup> Goby v Wetherill. [1915] 2 K.B. 674.

<sup>25</sup> <https://www.judiciary.gov.uk/publications/equal-treatment-bench-book/>

<sup>26</sup> <http://www.scotland-judiciary.org.uk/Upload/Documents/StatementofPrinciplesofJudicialEthicsrevisedDecember2016.pdf>, mae adran 8 yn ymdrin ag 'egwyddor cydraddoldeb'.

<sup>27</sup> <http://www.scotland-judiciary.org.uk/Upload/Documents/EqualTreatmentBenchBook110216.pdf>

62. **(b)** Mae Llywodraeth y DU yn ymrwymedig i helpu pobl anabl i fyw'n annibynnol a chael eu cynnwys yn y gymuned, gan amddiffyn yr hawl i ddewis a rheoli ble maent yn byw a'u gofal iechyd. Yng Nghymru a Lloegr, mae'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn diogelu hawliau pobl drwy sicrhau bod unrhyw benderfyniad i amddifadu rhywun o'i ryddid er lles yr unigolyn hwnnw, y cyfyngir arno cyn lleied â phosibl, y caiff ei asesu'n annibynnol a bod modd herio'r penderfyniad yn y llys. Yn ymarferol, mae'n rhaid i gartrefi gofal ac ysbytai wneud cais i ALLau awdurdodi amddifadu unigolyn o'i ryddid ac mae'r Comisiwn Ansawdd Gofal yn monitro'r defnydd a wneir o'r trefniadau diogelu.
63. O ran cam-drin mewn gofal, daeth trosedd 'esgeulustod bwriadol' i rym ym mis Ebrill 2015 er mwyn mynd i'r afael ag achosion o gam-drin pobl sy'n dibynnu ar wasanaethau gofal. Dylid ymchwilio'n drylwyr i honiadau difrifol o gam-drin ac esgeulustod a dylid erlyn achosion os gellir cyfiawnhau hynny.
64. Yn yr Alban, mae Cod Ymarfer Iechyd Meddwl (Gofal a Thriniaeth) (yr Alban) 2003 yn nodi y dylai'r holl asiantaethau lleol perthnasol gydweithio'n agos er mwyn sicrhau y darperir digon o fannau diogel yn eu hardaloedd, gan ddynodi manau diogel y cytunwyd arnynt a sicrhau bod pob parti yn llwyr ymwybodol o'u lleoliad a'r defnydd a wneir ohonynt. Dylid sicrhau bod gan fannau diogel dynodedig yr adnoddau priodol a'u bod yn cael eu staffio gan staff iechyd meddwl cymwys sydd â phrofiad o reoli anhwylder meddwl aciwt.
65. Yng Nghymru, mae'r Cod Ymarfer diwygiedig ar gyfer Deddf Iechyd Meddwl 1983 yn pwysleisio'r egwyddor arweiniol o ddefnyddio'r opsiynau lleiaf cyfyngol a sicrhau bod unigolyn mor annibynnol â phosibl ar adegau gwneud penderfyniadau. Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru yw'r corff sy'n diogelu'r hawl i wneud cais am adolygiad annibynnol o'r penderfyniad i gadw unigolyn o dan y Ddeddf. Mae Arolygiaeth Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gwasanaethau Gofal a Chymdeithasol Cymru yn monitro'r modd y caiff y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid eu rhoi ar waith mewn lleoliadau iechyd a gofal.

**Rhyddid rhag arteithio neu driniaeth neu gosbau creulon, annynol neu ddiraddiol, Erthygl 15 (mater 10a-b)**

66. **(a)** Mae Llywodraeth y DU wedi gwneud gwaith i leihau'r defnydd a wneir o ataliaeth. Mewn carchardai, mae'n rhaid i bob defnydd o ataliaeth fod yn gyfreithlon, yn gymesur, yn rhesymol ac yn gwbl unol â pholisïau Gwasanaeth Carchardai a Phrofiannaeth EM (diweddarwyd yn 2015). Defnyddir dulliau atal er mwyn sicrhau diogelwch ac mae'n rhaid eu cofnodi'n llawn. Fe'u defnyddir mewn carchardai pan fydd carcharor sy'n cael ei hebrwng yn anufudd neu pan fydd yr hebryngwr yn mynd drwy ran anniogel o'r carchar. Cynhelir asesiad risg ar gyfer pob hebryngwr allanol i weld a oes angen defnyddio dulliau atal; pan fo dulliau atal yn amhriodol am resymau meddygol neu resymau sy'n ymwneud â gwedduster, darperir staff hebrwng ychwanegol. Mae pob aelod o staff gweithredol yn cael hyfforddiant ar sut i ddefnyddio technegau grym a chaiff polisïau eu hadolygu'n rheolaidd.

67. Mae'r polisi 'Lleihau a Rheoli Ataliaeth Gorfforol', a weithredir mewn Canolfannau Hyfforddi Diogel a Sefydliadau Troseddwy'r Ifanc, yn defnyddio technegau dad-ddwysáu er mwyn sicrhau mai dim ond pan fo'n gwbl angenrheidiol y caiff dulliau atal eu defnyddio. Bydd gan unrhyw berson ifanc anabl sy'n mynd i mewn i amgylchedd diogel gynllun trin ac ataliaeth lleol. Dim ond er mwyn diogelu plant ac atal anafiadau a difrod difrifol i eiddo neu rwystro plant rhag dianc y gall Cartrefi Plant Diogel a Chanolfannau Hyfforddi Diogel ddefnyddio dulliau atal. Mae'n rhaid adolygu'r defnydd a wneir o ddulliau atal ar ôl pob digwyddiad.
68. Mae'n rhaid i unrhyw ddefnydd o rym gan yr heddlu, gan gynnwys defnyddio dulliau atal, fod yn angenrheidiol ac yn gymesur. Argymhellodd adolygiad o'r data a gasglwyd ac a gyhoeddwyd ynghylch y defnydd o ataliaeth y dylai heddluoedd gofnodi amrywiaeth o ddata ym mhob achos lle y defnyddir grym sylweddol, gan gynnwys technegau a chyfarpar atal. Cyhoeddir is-set o'r data hyn yn 2017/18, gan helpu i feithrin dealltwriaeth o faint o ddefnydd y mae heddluoedd yn ei wneud o rym a dulliau atal a pha fath o ddefnydd y maent yn ei wneud ohonynt a gwella atebolrwydd yr heddlu.
69. Ym maes gofal cymdeithasol, mae 'Positive and Proactive Care' (a gyhoeddwyd yn 2014) yn rhoi canllawiau i staff iechyd a gofal cymdeithasol oedolion yn Lloegr ar sut i ddefnyddio ymyriadau cyfyngol dim ond fel dewis olaf. Mae'n nodi systemau i sicrhau atebolrwydd, gan gynnwys llywodraethu effeithiol, tryloywder a monitro. Ar gyfer plant, mae'r defnydd o wneir o ataliaeth mewn ysgolion yn Lloegr yn cael ei adolygu; comisiynwyd y Cyngor dros Blant Anabl i ddrafftio canllawiau ar leihau'r risg y mae'r ataliaeth yn ei pheri i blant a phobl ifanc ag awtistiaeth, anawsterau neu anableddau dysgu a phroblemau iechyd meddwl mewn ysgolion arbennig a chyd-destunau iechyd a gofal.
70. Bydd yr Alban yn cynnwys canllawiau ar ymyrraeth gorfforol yn y ddogfen 'Included, Engaged and Involved Part 2: A Positive Approach to Preventing and Managing Schools Exclusions'. Mae hyn yn cynnwys cyngor ynglŷn â phlant ag anghenion cymorth ychwanegol cymhleth; mae'n nodi'n glir mai dim ond fel dewis olaf y dylid defnyddio ymyrraeth gorfforol.
71. **(b)** Cyflwynodd Llywodraeth y DU ymateb manwl i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, gan esbonio sut roedd yn bwriadu gweithredu ar argymhellion a wnaed gan y Comisiwn ynghylch carchardai, iechyd a dalfeydd yr heddlu. Caiff gwersi eu dysgu o unrhyw farwolaethau annisgwyl yn y ddalffa er mwyn helpu i atal rhagor o farwolaethau o'r fath.
72. Yng Nghymru, nodir trefniadau diogelu gweithredol (y mae'n ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol eu rhoi ar waith) mewn perthynas â defnyddio dulliau atal yng Nghod Ymarfer Cymru ar gyfer Deddf Iechyd Meddwl 1983<sup>28</sup>.

---

<sup>28</sup> Mae <http://gov.wales/docs/dhss/publications/160920mentallactcy.pdf> yn cyfeirio at argymhellion y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

### **Rhyddid rhag camfanteisio, trais a cham-drin, Erthygl 16 (mater 11a-c)**

73. **(a)** Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diogelu pobl rhag aflonyddu ac erledigaeth ar sail rhyw, oedran ac ailbennu rhywedd. Mae cymorth cyfreithiol yn helpu pobl i gael mynediad i brosesau cyfiawnder drwy roi cyngor cyfreithiol a darparu cynrychiolaeth gyfreithiol ar gyfer achosion sy'n ymwneud ag aflonyddu neu erledigaeth o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. At hynny, mae'r Ddeddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol (1999) yn nodi bod tystion yr ystyrir eu bod yn agored i niwed, am eu bod o dan 18 oed neu am fod ganddynt anabledd meddyliol neu gorfforol, yn gymwys i gael cymorth cyfryngwr. Mae cyfryngwyr yn helpu tystion i ddeall y cwestiynau sy'n cael eu gofyn iddynt a rhoi eu tystiolaeth yn ystod cyfweiliad yr heddlu ac yn y llys.
74. Yn yr un modd, mae cynllun Cyfryngwyr Cofrestredig Gogledd Iwerddon yn helpu tystion sy'n agored i niwed gyfathrebu'n effeithiol yn ystod ymchwiliadau gan yr heddlu a threialon dilynol. Yn yr Alban, mae strategaeth 'Equally Safe' yn atgyfnerthu'r gyfraith ac yn buddsoddi cryn dipyn o adnoddau er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn.
75. **(b)** Ym mis Gorffennaf 2016, cyhoeddodd Llywodraeth y DU gynllun gweithredu traws-lywodraethol pedair blynedd ar gyfer mynd i'r afael â throeddau casineb sy'n nodi mentrau penodol i leihau troeddau casineb, ar sail anabledd a sawl nodwedd warchoddedig benodol arall. Mae'n cynnwys mesurau i fynd i'r afael â phroblem tangofnodi troeddau casineb ac achosion o aflonyddu ar sail anabledd a chynyddu nifer yr erlyniadau. Mae hyn yn cael ei wneud drwy ganolfannau cofnodi trydydd partïon o fewn sefydliadau eirioli ar gyfer pobl anabl a thrwy gefnogi ymgyrchoedd perthnasol megis #imwithsam<sup>29</sup>. At hynny, darparwyd hyfforddiant ar y cyd rhwng erlynwyr Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r heddlu er mwyn gwella prosesau nodi troeddau casineb ar sail anabledd, ymchwilio iddynt a'u herlyn. Yn 2015/16 bu cynnydd o 40.6% yn nifer yr erlyniadau llwyddiannus o gymharu â 2014/15.
76. Mae Strategaeth Diogelwch Cymunedol Gogledd Iwerddon yn cynnwys ymrwymiad i fynd i'r afael â phob math o drosedd casineb drwy fesurau atal, codi ymwybyddiaeth, addysg a chymorth i ddioddefwyr a chymunedau. Nod y gwasanaeth Eiriolwyr Troseddau Casineb ar sail Anabledd yw dileu rhwystrau sy'n atal dioddefwyr troeddau casineb rhag rhoi gwybod am ddioglyddiadau.
77. Sefydlodd yr Alban Grŵp Cynghori Annibynnol ar Droseddau Casineb, Rhagfarn a Chydlyniant Cymunedol, a gyflwynodd ei adroddiad ym mis Medi 2016. Ym mis Mehefin 2017, nododd Llywodraeth yr Alban raglen i weithredu argymhellion y Grŵp Cynghori. Penodwyd yr Arglwydd Bracadale ym mis Ionawr 2017 i gynnal adolygiad annibynnol o'r ddeddfwriaeth ynglŷn â throeddau casineb.

---

<sup>29</sup> <https://www.dimensions-uk.org/campaign/imwithsam/>

78. Mae Mynd i'r Afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb: Fframwaith Gweithredu<sup>30</sup>, a luniwyd gan Lywodraeth Cymru, yn cynnwys amcanion sy'n ymwneud ag atal, cymorth a gwella'r ymateb amlasiantaethol.
79. (c) Yng Ngogledd Iwerddon, dim os cafwyd ail farn y gellir rhoi therapi electrogynhyrfol i unigolyn heb ganiatâd. Pan fydd Deddf Galluedd Meddyliol (Gogledd Iwerddon) 2016 yn cychwyn, ni chaiff therapi electrogynhyrfol ei roi i unigolyn heb ganiatâd os oes gan yr unigolyn hwnnw alluedd meddyliol i roi caniatâd. Os nad oes gan unigolyn alluedd meddyliol, dim ond os yw er lles yr unigolyn a bod ail farn yn cytuno y dylid ei roi y caniateir i therapi electrogynhyrfol gael ei roi i unigolyn.
80. Cyhoeddodd Addysg GIG yr Alban fersiwn wedi'i diweddarau o 'The Matrix: a Guide to Delivering Evidence-based Psychological Therapies in Scotland'<sup>31</sup>, yn 2015. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r dystiolaeth ynghylch dulliau therapiwtig gwahanol, yn rhoi cyngor ar wasanaethau therapi seicolegol ac yn cyfeirio at ymyriadau wedi'u teilwra ar gyfer yr unigolyn. Mae canllawiau arfer da sy'n seiliedig ar dystiolaeth a luniwyd gan Rwydwaith Canllawiau Rhyng-golegol yr Alban hefyd yn llywio arfer yn yr Alban.
81. Mae Cod Ymarfer Cymru ar gyfer Deddf Iechyd Meddwl 1983 yn nodi canllawiau ar driniaethau sy'n ddarostyngedig i reolau a gweithdrefnau arbennig gan gynnwys therapi electrogynhyrfol ym Mhenod 25. At hynny, mae'n rhoi gwybodaeth i gleifion, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

### **Amddiffyn uniondeb y person, Erthygl 17 (mater 12)**

82. Mae'r gofyniad i gael caniatâd dilys i archwilio neu drin unigolyn yn fater o gyfraith sy'n gymwys i'r un graddau i bob person; nid yw anabledd yn rheswm digonol i orfodi unigolyn i gael triniaeth o'i anfodd. Mae caniatâd yn ganolog i bob math o ofal iechyd, gan gynnwys triniaeth sy'n arwain at sterileiddio. Ar gyfer y mwyafrif bach o bobl nad oes ganddynt alluedd meddyliol i wneud eu penderfyniadau eu hunain, mae cyfraith y DU yn caniatáu i driniaeth gael ei rhoi pan fo er lles yr unigolyn, yn ddarostyngedig i fesurau diogelu pwysig.
83. Nid yw cyfraith yr Alban yn cynnwys trosedd benodol sterileiddio dan orfod. Fodd bynnag, byddai hyn yn gyfystyr ag ymosodiad o dan gyfraith gwlad (ymosodiad gwaethygedig yn ôl pob tebyg) a gellid ei erlyn ar y sail honno.

### **Rhyddid i symud a dewis cenedligrwydd, Erthygl 18 (mater 13)**

<sup>30</sup> <http://gov.wales/topics/people-and-communities/equality-diversity/rightsequality/hate-crime/?lang=en>

<sup>31</sup> [http://www.nes.scot.nhs.uk/education-and-training/by-discipline/psychology/the-matrix-\(2015\)-a-guide-to-delivering-evidence-based-psychological-therapies-in-scotland.aspx](http://www.nes.scot.nhs.uk/education-and-training/by-discipline/psychology/the-matrix-(2015)-a-guide-to-delivering-evidence-based-psychological-therapies-in-scotland.aspx)



84. Mae Llywodraeth y DU yn parhau i fynegi amheuaeth ynglŷn at Erthygl 18 ar y rhyddid i symud a dewis cenedligrwydd. Mae'n briodol ac yn gymesur cadw'r hawl i ddefnyddio deddfwriaeth o'r fath, i'r graddau y mae'n ymwneud â phobl nad oes ganddynt yr hawl (o dan gyfraith y DU) i ddod i mewn i'r DU ac aros ynddi.

**Byw'n annibynnol a chael eich cynnwys yn y gymuned, Erthygl 19 (mater 14-16)**

85. **(14a)** Mae cynllun y GIG yn Lloegr a phartneriaid, 'Building the Right Support' (2015), yn cynnig y dylid datblygu gwasanaethau cymunedol a chau cyfleusterau cleifion mewnol ar gyfer pobl ag anabledd dysgu neu awtistiaeth (ac ymddygiad heriol) er mwyn gostwng nifer y bobl mewn lleoliadau cleifion mewnol rhwng 35% a 50% erbyn 2019. Mae'r cynllun hefyd yn ymgorffori model gwasanaeth cenedlaethol amlinellol.

86. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cefnogi cynhwysiant cymunedol drwy ddarparu'r deddfwriaeth i ddiogelu pobl rhag gwahaniaethu mewn nifer o feysydd, (gan gynnwys tai a darparu nwyddau a gwasanaethau) a thrwy osod dyletswyddau statudol ar sefydliadau i wneud addasiadau rhesymol. Gellir defnyddio'r mesurau diogelu hyn i wella mynediad at wasanaethau a gweithleoedd, a gwneud newidiadau i amgylcheddau byw er mwyn helpu pobl i fyw'n annibynnol.

87. **(b)** Yn ogystal â'r mesurau diogelu yn Neddf Cydraddoldeb 2010, mae deddfwriaeth fel y Rheoliadau Grant Adnewyddu Tai (1996) yn helpu pobl i fyw'n annibynnol drwy osod dyletswydd statudol ar awdurdodau tai i addasu tai ar gyfer pobl anabl sy'n gymwys i gael y Grant Cyfleusterau i'r Anabl.

88. Yn Lloegr, mae Deddf Gofal 2014 yn helpu i ddileu ymagweddau traddodiadol tuag at anabledd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol drwy roi mwy o bŵer i ddefnyddwyr gwasanaethau, gan gynnwys pobl anabl. Gan nodi'r hawl i gael cyllidebau personol, mae'r Ddeddf yn rhoi mwy o reolaeth dros y gwasanaethau gofal a ddefnyddir gan bobl anabl. Mae hefyd yn gosod dyletswydd ar ALLau i sicrhau, yn y dyfodol, fod oedolion sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol yn rheoli eu bywyd o ddydd i ddydd.

89. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn darparu'r fframwaith statudol i gyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i drawsnewid ei gwasanaethau cymdeithasol, gan wella lles pobl y mae angen gofal arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt.

90. **(c)** Mae Llywodraeth y DU yn cydnabod y manteision cymdeithasol ac ariannol sy'n deillio o helpu pobl anabl i fyw'n annibynnol lle y bo'n bosibl. Yn amodol ar brawf modd, mae gan bobl anabl yr hawl i gymorth ariannol gan y wladwriaeth i dalu cost eu gofal personol, p'un a ydynt yn byw'n annibynnol neu mewn cartref gofal preswyl. Mae faint o incwm unigolyn a ddiystyrir o'r prawf modd yn is pan fydd pobl mewn cartref gofal preswyl, ac mae'n dibynnu ar oedran yr unigolyn.

91. **(ch)** Nid yw Llywodraeth y DU yn ystyried bod Tiriogaethau Tramor y DU yn cael eu cwmpasu gan yr adolygiad cyfnodol hwn am nad yw wedi ymestyn ei gymeradwyaeth i gynnwys eu hawdurdodaethau.
92. Mae Adran Iechyd Gogledd Iwerddon yn gweithio gyda Llywodraeth yr Alban ac yn rhoi arian i Gronfa Byw'n Annibynnol yr Alban er mwyn gwneud taliadau arian parod uniongyrchol gwerth £250 yr wythnos i bobl ag anableddau difrifol y mae ganddynt anghenion gofal sylweddol iawn. Mae cyfran sylweddol o'r rhaglen 'Supporting People', sy'n ariannu gwasanaethau tai sy'n helpu pobl i fyw'n annibynnol, wedi'i hanelu at wasanaethau i bobl ag anableddau corfforol ac anableddau dysgu.
93. Mae Deddf Gofal Cymdeithasol (Cymorth Hunangyfeiriedig) 2013 yn helpu pobl i wneud dewisiadau hyddysg ynglŷn â'u gofal cymdeithasol a byw'n annibynnol a bod yn ddinasyddion gweithgar yn eu cymuned (gan ddyrannu tua £50m yng Nghronfa Byw'n Annibynnol yr Alban).
94. Mae Cymru yn helpu pobl i fyw'n annibynnol drwy ddarparu gofal cymdeithasol; caiff cymorth y rhai a oedd yn arfer cael cymorth o'r Gronfa Byw'n Annibynnol ei adolygu a chaiff cynllun gofal a chymorth newydd ei lunio. At hynny, mae Fframwaith Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Byw'n Annibynnol yn hyrwyddo hawliau pobl anabl yng Nghymru. Mae'r fframwaith yn nodi sut mae Llywodraeth Cymru yn rhoi'r Confensiwn ar waith ac mae wrthi'n cael ei ddiweddarau ar hyn o bryd.
95. **(15)** Mae Llywodraeth y DU wedi cymryd camau yn ystod y blynyddoedd diwethaf i gynyddu nifer yr unigolion sy'n byw'n annibynnol, gan gynnwys cyflwyno Deddf Gofal 2014<sup>32</sup> yn Lloegr. Mae canllawiau'r Ddeddf yn pwysleisio bod angen sicrhau bod pobl yn cadw rheolaeth dros eu bywyd o ddydd i ddydd ac yn parhau i fyw mewn llety preswyl addas. Mae gan Awdurdodau Tai Lleol ddyletswydd statudol i addasu cartrefi pobl anabl sy'n gymwys i gael y Grant Cyfleusterau i'r Anabl (sy'n werth £431 miliwn yn 2017/18). Mae ALlau yn destun archwiliad cyfreithiol i nodi sut mae anheddau newydd yn darparu ar gyfer pobl anabl ac mae'n rhaid iddynt sicrhau y rhoddir ffafriaeth resymol ar gyfer tai cymdeithasol i grwpiau penodol o bobl (fel pobl sy'n symud oherwydd anabledd).
96. **(16)** Yng Ngogledd Iwerddon, mae Adroddiad Terfynol a Chynllun Gweithredu yr Adolygiad Rhyngadrannol o Wasanaethau Addasu Tai 2016 yn cynnwys argymhelliad i atgyfnerthu cynrychiolaeth a chyfranogiad pobl anabl mewn strwythurau gwneud penderfyniadau; mae fforwm anabledd wedi'i sefydlu ers hynny. Cefnogir Grŵp Gweithredu'r Strategaeth gan grwpiau eraill sy'n cynnwys pobl anabl. At hynny, nod Strategaeth a Chynllun Gweithredu Anableddau Corfforol a Synhwyrdd yw gwella gwasanaethau a chymorth i unigolion (waeth beth fo'u hoedran) ag anableddau corfforol neu synhwyrdd neu anableddau cyfathrebu; mae adran 7.4 yn cyfeirio'n benodol at wasanaethau sy'n helpu pobl i fyw'n annibynnol.

---

<sup>32</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2014/23/contents/enacted>

97. Yn yr Alban, mae Cymorth Hunangyfeiriedig<sup>33</sup> yn galluogi pobl anabl, eu gofawyr a'u teuluoedd i wneud dewisiadau hyddysg ynglŷn â'u gofal cymdeithasol. Mae gan ALLau ddyletswydd gyfreithiol i gynnig dewis o ofal a chymorth i bobl sy'n gymwys i gael gofal cymdeithasol a sicrhau eu bod yn cael cymorth i wneud dewisiadau hyddysg.
98. Yn 2016/17 rhoddodd Cymru arian Cefnogi Pobl gwerth mwy na £124.4m<sup>34</sup> i ddarparu cymorth sy'n gysylltiedig â thai (gan gynnwys byw'n annibynnol) i'r bobl sydd fwyaf agored i niwed; mae'r gyllideb hon wedi'i diogelu ar gyfer 2017/18. Mae'r rhaglen hon hefyd yn darparu amrywiaeth o gymorth er mwyn helpu pobl anabl i ddod o hyd i lety a'i gadw.

### **Rhyddid mynegiant a rhyddid i leisio barn, a mynediad at wybodaeth, Erthygl 21 (mater 17)**

99. Cafodd iaith arwyddion Prydain (BSL) ei chydabod yn gyfreithiol fel iaith yn ei rhinwedd ei hun gan Lywodraeth y DU ym mis Mawrth 2003. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cynnwys darpariaethau sy'n sicrhau y darperir addasiadau rhesymol ar gyfer pobl anabl, gan gynnwys pobl fyddar neu bobl â nam ar eu clyw; gallai darpariaeth o'r fath yn rhesymol gynnwys darparu gwasanaeth dehongli arwyddion iaith Prydain. Darperir cyfleusterau dehongli iaith arwyddion Prydain yn y rhan fwyaf o ddigwyddiadau a noddir gan y llywodraeth a llawer o ddigwyddiadau cyhoeddus.
100. Mae plant sydd â nam ar eu clyw yn cael amrywiaeth eang o gymorth arbenigol drwy'r system ysgolion. Mae mwy na 93% bellach yn gallu mynd i'w hysgolion prif ffrwd lleol, tra'n cael cymorth ychwanegol drwy unedau arbenigol. Mae gan 132 o'r 152 o ALLau yn Lloegr dimau arbenigol o athrawon sy'n meddu ar gymhwyster mewn addysgu disgyblion sydd â nam ar eu clyw ac maent yn rhoi cyngor a chymorth i ysgolion a theuluoedd. Mae ysgolion arbenigol ar gael i'r nifer fach o ddisgyblion byddar a disgyblion byddar a dall sydd ag anghenion mwy cymhleth.
101. Mae ymgynghoriad cyhoeddus ar y Fframwaith Iaith Arwyddion a gynhaliwyd yng Ngogledd Iwerddon yn 2016 yn cynnwys cynigion deddfwriaethol a chynigion polisi i hyrwyddo Iaith Arwyddion Prydain/Iwerddon a'i gwneud yn haws i ddefnyddwyr iaith arwyddion ddefnyddio pob gwasanaeth cyhoeddus. Mae hyn yn adeiladu ar fentrau presennol sy'n darparu cyrsiau ymwybyddiaeth o fyddardod a chyrsiau Iaith Arwyddion Prydain/Iwerddon ar gyfer plant, teuluoedd, darparwyr gwasanaethau yn y sector gwirfoddol/cymunedol, prifysgolion ac ysgolion.
102. Mae Deddf Iaith Arwyddion Prydain (yr Alban) 2015 yn hyrwyddo ac yn cefnogi Iaith Arwyddion Prydain. Erbyn hyn gellir dysgu Iaith Arwyddion Prydain yn yr ysgol fel trydedd iaith. Mae Llywodraeth yr Alban yn adolygu cyd-destun dehongli Iaith Arwyddion Prydain/Saesneg (gan gynnwys lefelau sgiliau, hyfforddiant a rheoleiddio) ac yn ystyried sut i gynyddu nifer y dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain sy'n hyfedr mewn cyd-destunau arbenigol megis iaith a chyfiawnder.

---

<sup>33</sup> <http://www.gov.scot/Topics/Health/Support-Social-Care/Support/Self-Directed-Support>

<sup>34</sup> <http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/services-and-support/supporting-people/?skip=1&lang=cy>

### **Addysg, Erthygl 24 (mater 18a-dd)**

103. **(a)** Mae Llywodraeth y DU yn parhau i fynegi amheuaeth am ei bod o'r farn bod amgylchiadau lle mae anghenion addysgol plentyn anabl yn dal i gael eu diwallu orau drwy ddarpariaeth arbenigol y tu allan i'w gymuned leol. Yn gyson â'r datganiad deongliadol a gofnodwyd pan gadarnhaodd y DU y Confensiwn, mae Llywodraeth y DU yn ymrwymedig i sicrhau bod gan rieni ddewis wrth chwilio am leoedd i'w plant mewn ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig.
104. **(b)** O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 gwaherddir gwahaniaethu yn erbyn pobl anabl. Mae Deddf Plant a Theuluoedd 2014 hefyd yn sicrhau bod rhagdybiaeth gyffredinol yn y gyfraith o blaid addysg brif ffrwd mewn perthynas â phenderfyniadau ynghylch i ble y dylai pobl ifanc ag Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd (SEND) gael eu hanfon i'w haddysgu. Ategir y rhagdybiaeth hon gan ddarpariaethau sy'n sicrhau bod dymuniadau'r rhiant neu'r person ifanc yn cael eu parchu. Fodd bynnag, ceir rhai cyfyngiadau statudol sy'n ymwneud ag addasrwydd lleoliad; a chydwedoldeb â'r defnydd effeithlon o adnoddau ac addysgu eraill yn effeithlon.
105. Yn Lloegr, mae'n rhaid i staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc anabl mewn ysgolion prif ffrwd eu cynnwys ym mhob cyfle i gyfranogi gyda phobl ifanc eraill, yn unol ag SDG 4. Dylai fod gan bob athro mewn ysgolion a gynhelir ac ysgolion arbennig Statws Athro Cymwysedig. Mae rhai ysgolion arbennig yn cydweithio ag ysgolion prif ffrwd i ddatblygu dulliau gweithredu a rhannu arbenigedd.
106. Yng Ngogledd Iwerddon, caiff fframwaith anghenion addysgol arbennig newydd ei roi ar waith yn ystod blwyddyn academaidd 2018/19. Bydd gan yr Awdurdod Addysg ddyletswydd i ystyried barn y plentyn a bydd gan blant dros 16 oed hawliau newydd gan gynnwys yr hawl i apelio.
107. Yn yr Alban, mae'r rhagdybiaeth o blaid addysg brif ffrwd yn yr Alban yn cynnwys tri eithriad allweddol yn y penderfyniad lleoli; mae'r rhain yn ystyried lles y plentyn a faint o addasiadau sydd angen eu gwneud. Gellir herio penderfyniadau ynghylch addysg o dan y Ddeddf Cymorth Ychwanegol ar gyfer Dysgu.
108. Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio canllawiau ar Gynnwys a Chynorthwyo Disgyblion<sup>35</sup> i ysgolion, ALLau a sefydliadau partner ac mae wrthi'n ystyried Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) ar hyn o bryd<sup>36</sup>.
109. **(c)** Mae'r Datganiad Ystadegol Cyntaf, Special Educational Needs in England<sup>37</sup>, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2016, yn cynnwys dadansoddiad o anghenion addysgol arbennig yn ôl y math o sefydliad,

---

<sup>35</sup> <http://gov.wales/docs/dcells/publications/160318-inclusion-and-pupil-support-cy.pdf>

<sup>36</sup> <http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?Ild=16496>

<sup>37</sup> <https://www.gov.uk/government/statistics/special-educational-needs-in-england-january-2016>

angen, oedran, rhyw ac ethnigrwydd. Mae ffigurau ar gyfer y gweinyddiaethau datganoledig<sup>38 39</sup> hefyd ar gael i'r cyhoedd. Gweler Atodiad B.

110. **(ch)** Mae Cod Ymarfer Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn nodi'n glir y dylai gweithwyr proffesiynol gynnwys rhieni ar bob cam o'r broses o gynllunio ac adolygu cymorth. Mae gan rieni yr hawl i ofyn am ysgol benodol fel rhan o broses o gytuno ar gynllun Addysg, Iechyd a Gofal. Os nad oes gan blentyn neu berson ifanc gynllun Addysg, Iechyd a Gofal, mae'n rhaid ei addysgu mewn prifysgolion prif ffrwd yn y rhan fwyaf o amgylchiadau.
111. Mae Deddf Ysgolion yr Alban (Cynnwys Rhieni) (yr Alban) 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion a chynghorau weithio gyda rhieni a chydweithwyr ar draws gwasanaethau er mwyn llunio strategaeth ar gyfer cynnwys rhieni. Uchelgais yr Alban yw bod yn arweinydd byd-eang ym maes cynnwys rhieni, gan ysgogi dulliau gweithredu mwy cydweithredol sy'n cefnogi rhieni a theuluoedd fel partneriaid cyfartal. Mae Llywodraeth yr Alban yn ariannu sefydliadau drwy Gronfa Ymyrraeth Gynnar Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd er mwyn cefnogi rhieni â phlant anabl ac mae'n rhoi £2.8 miliwn y flwyddyn i'r Gronfa Teuluoedd sy'n rhoi grantiau bach yn uniongyrchol i deuluoedd ar incwm isel â phlant sydd ag anableddau difrifol. At hynny, mae'n ariannu 'Enquire' (sef gwasanaeth cynghori'r Alban ar gymorth ychwanegol ar gyfer dysgu) i lunio cyngor i rieni a gofawyr ar gymorth ychwanegol ar gyfer dysgu, gan gynnwys taflen ffeithiau ar ddewis ysgol a hawliau cysylltiedig rhieni.
112. **(d)** Mae Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl (DSA) yn rhoi cymorth ariannol nad yw'n dibynnu ar brawf modd i dalu am addasiadau sydd eu hangen ar fyfyrwyr anabl er mwyn manteisio ar addysg uwch, lle mae addasiadau yn mynd y tu hwnt i'r hyn y gellid yn rhesymol ddisgwyl i ddarparwyr Addysg Uwch ei ddarparu. Nid yw newidiadau i'r Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl yn dileu cymorth ariannol, yn hytrach maent yn ategu ymdrechion darparwyr Addysg Uwch i gyflawni eu dyletswydd i ddarparu addasiadau rhesymol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010<sup>40</sup>. Mae arian ar gael o hyd drwy'r Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl i dalu am gymorth mwy arbenigol. Mae proses achosion eithriadol yn rhoi arian dros dro i fyfyrwyr yn ystod anghydfodau â darparwyr Addysg Uwch ynghylch addasiadau rhesymol a aseswyd.
113. **(dd)** Mae'n rhaid i bob cwrs hyfforddiant cychwynnol athrawon yn y DU sicrhau bod athrawon dan hyfforddiant yn cyrraedd y lefel briodol o ran Safonau Athrawon, gan gynnwys deall anghenion plant anabl. Mae adnoddau ymwybyddiaeth o anabledd ar gael yn eang i athrawon feithrin eu hymwybyddiaeth eu hunain a chreu amgylcheddau ystafell ddisbarth mwy cynhwysol, mae'r rhain yn cynnwys hyfforddiant ymwybyddiaeth o awtistiaeth. At hynny, dylai fod gan athrawon sy'n ymgymryd â rôl cydlynedd anghenion addysgol arbennig Statws Athro Cymwysedig ac enill y Dyfarniad Cenedlaethol ar gyfer Cydlynedd AAA ar lefel gradd Meistr o fewn tair blynedd i ddechrau

<sup>38</sup> <http://www.gov.scot/Topics/Statistics/Browse/School-Education/dspupcensus/dspupcensus16>

<sup>39</sup> <http://gov.wales/docs/statistics/2016/160727-school-census-results-2016-cy.pdf>

<sup>40</sup>Nid yw hyn yn gymwys i Ogledd Iwerddon.

yn y rôl hon. Mae'n rhaid i athrawon sy'n addysgu dosbarthiadau llawn o blant â nam ar eu synhwyrau ymgymryd â hyfforddiant gorfodol pan fyddant yn dechrau yn y rôl hon.

114. Yn yr Alban, mae'n rhaid i ddarparwyr Addysg Gychwynnol Athrawon sicrhau bod eu myfyrwyr sy'n graddio yn deall y disgwyliadau o ran diwallu anghenion pob plentyn a pherson ifanc mewn ffyrdd teg a chyfiawn er mwyn sicrhau cydraddoldeb a chynhwysiant.
115. Ar hyn o bryd mae Cymru yn diwygio'r ffordd y darperir addysg athrawon. Bydd hyn yn egluro'r cyfrifoldeb sydd gan bob athro ac arweinydd i sicrhau y caiff anghenion pob dysgwr, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, eu diwallu.

### **Iechyd, Erthygl 25 (mater 19a-e)**

116. **(a)** Mae sicrhau cydsyniad yn rhan annatod o arfer y GIG, p'un a yw'r claf yn anabl ai peidio. Pan ystyrir bod gan unigolyn anabl alluedd meddyliol, mae'n rhaid cael ei gydsyniad er mwyn rhoi triniaeth iddo. Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r Cod Ymarfer cysylltiedig yn nodi'r sail ar gyfer asesu galluedd meddyliol.
117. Nod Safon Gwybodaeth Hygyrch Lloegr yw sicrhau y caiff pobl wybodaeth y maent yn ei deall a chymorth i gyfathrebu'n effeithiol â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. O dan y gyfraith, mae'n ofynnol i bob sefydliad sy'n darparu gofal y GIG neu ofal cymdeithasol a ariennir yn gyhoeddus ddilyn y safon hon (ers Awst 2016).
118. Yn ogystal â Deddf Galluedd Meddyliol (Gogledd Iwerddon) 2016, mae Gogledd Iwerddon yn datblygu fframwaith gwasanaeth ar gyfer iechyd meddwl, gan nodi safonau gofal a ddisgwyilir gan y system iechyd a gofal cymdeithasol.
119. Yn dilyn dyfarniad y Goruchaf Lys yn achos Montgomery, mae'r Alban yn adolygu ei phroses cydsynio. Mae'r dyfarniad yn pwysleisio bod trafod risg yn golygu cael sgwrs glir ac ystyrion a gwneud penderfyniad a rennir, a all gymryd amser; caiff canllawiau diwygiedig ar gydsyniad eu datblygu.
120. **(b)** O dan y gyfraith, mae'n ofynnol i bob sefydliad sy'n darparu gofal y GIG neu ofal cymdeithasol a ariennir yn gyhoeddus yn Lloegr ddilyn y Safon Gwybodaeth Hygyrch. Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008<sup>41</sup> yn nodi bod yn rhaid diogelu cleifion rhag risgiau sy'n gysylltiedig â safleoedd anniogel ac anaddas, gan gynnwys drwy waith dylunio a chynllunio addas. Mae arfer da a darpariaethau statudol ar gyfer hygyrchedd i gyfleusterau ffisegol lle y darperir gofal iechyd wedi'u hymgorffori mewn Nodiadau ar Adeiladau Iechyd<sup>42</sup> sy'n esbonio sut y dylid dylunio adeiladau gofal iechyd.

---

<sup>41</sup> <http://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2009/9780111487006/regulation/15>

<sup>42</sup> <https://www.gov.uk/government/collections/health-building-notes-core-elements>.

121. O dan Ddeddf y GIG 2006, Deddf Plant 1989, Deddf Gofal 2014 a Deddf Plant a Theuluoedd 2014, mae gan gomisiynwyr gofal iechyd a gofal cymdeithasol ddyletswydd i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion pawb y maent yn gyfrifol amdanynt. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod cyfleusterau ffisegol yn hygyrch. Mae'r Alban yn canolbwyntio ar hyfforddiant ychwanegol i weithwyr iechyd proffesiynol ar awtistiaeth ac anawsterau dysgu.
122. **(c)** Mae gwybodaeth am iechyd rhywiol ac atgenhedlol ar gael i'r cyhoedd mewn sawl fformat, sy'n ei gwneud yn fwy hygyrch i fenywod anabl. At hynny, mae Fframwaith Llywodraeth y DU ar gyfer Gwella Iechyd Rhywiol yn Lloegr<sup>43</sup> yn nodi'r sail dystiolaeth i wella gwasanaethau iechyd rhywiol yn lleol ac yn darparu gwybodaeth ac adnoddau cymorth er mwyn sicrhau bod gwasanaethau ac ymyriadau hygyrch ar gael.
123. Yn yr Alban, mae gwasanaethau iechyd rhywiol ac atgenhedlol yn rhan arferol o ofal iechyd. Mae Llywodraeth yr Alban yn gweithio gydag NHS Education Scotland i ddatblygu fframwaith hyfforddiant ar anableddau dysgu er mwyn cefnogi staff iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys staff mewn clinigau iechyd rhywiol ac atgenhedlol.
124. Arweiniodd y Cynllun Gweithredu Iechyd a Lles Rhywiol ar gyfer Cymru 2010-2015 at nifer o welliannau i wasanaethau a chanlyniadau menywod. Mae Llywodraeth Cymru bellach yn adolygu gwasanaethau iechyd rhywiol er mwyn llywio gwaith Bwrdd y Rhaglen Iechyd Rhywiol newydd.
125. **(ch)** Ariannodd Llywodraeth y DU hyfforddiant mynediad agored 'Disability Matters'<sup>44</sup> (a lanswyd ym mis Chwefror 2015) er mwyn gwella dealltwriaeth a chymorth i bobl anabl. Mae'r hyfforddiant, sydd wedi'i anelu at weithwyr gofal iechyd proffesiynol yn benodol, yn cefnogi nodau SDG 3.7.
126. Mae'r Alban yn datblygu canllawiau cenedlaethol ar anableddau dysgu er mwyn helpu i nodi anghenion staff o ran hyfforddiant a gwella'r modd y darperir gwasanaethau ym mhob un o wasanaethau'r GIG. Mae fframwaith ar gyfer hyfforddiant ar awtistiaeth a luniwyd gan NHS Education Scotland yn uwchsgilio'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol ymhellach er mwyn cefnogi pobl ag awtistiaeth.
127. **(d)** Mae Mandad y GIG yn nodi'r hyn a ddisgwylir gan y GIG, gan gynnwys y canlynol yn amcan 6 :  
'We expect NHS England to strive to reduce the health gap between people with mental health problems, learning disabilities and autism and the population as a whole, and support them to live full, healthy and Independent lives.' Caiff yr amcan hwn ei fonitro drwy broses sicrhau perfformiad NHS England, ac yn eu tro, grwpiau comisiynu clinigol.

---

<sup>43</sup> [https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/142592/9287-2900714-TSO-SexualHealthPolicyNW\\_ACCESSIBLE.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/142592/9287-2900714-TSO-SexualHealthPolicyNW_ACCESSIBLE.pdf)

<sup>44</sup> <https://www.disabilitymatters.org.uk/>

128. Mae Arsyllfa Anableddau Dysgu'r Alban ym Mhrifysgol Glasgow yn darparu gwybodaeth am iechyd a gofal pobl ag anableddau dysgu a phobl ag awtistiaeth yn yr Alban.
129. **(dd)** Nododd The Priorities for Care of the Dying Person 2014<sup>45</sup> egwyddorion gofal unigol, tosturiol o ansawdd uchel y dylai gofal yn ystod diwrnodau ac oriau olaf bywyd fod yn seiliedig arnynt. Cafodd canllawiau<sup>46</sup> ar benderfyniadau ynghylch dadebru cardio-anadlol eu cyhoeddi ym mis Hydref 2014 (a'u diwygio yn 2016) gan Gyngor Adfywio'r DU, Cymdeithas Feddygol Prydain a Choleg Brenhinol y Nyrsys. Maent yn ystyried datblygiadau ym maes arfer clinigol a'r gyfraith sy'n ymwneud â phenderfyniadau rhagweledol ac yn pwysleisio pwysigrwydd cynnwys pobl (neu gynrychiolwyr os na allant wneud penderfyniadau eu hunain) yn y broses gwneud penderfyniadau. Mae Llywodraeth y DU wedi cymeradwyo'r canllawiau hyn fel sail i bolisiâu 'Na Cheisier Dadebru Cardio-Anadlol'.
130. Nod polisi diwygiedig yr Alban<sup>47</sup> (a gyhoeddwyd ym mis Awst 2016) yw sicrhau y caiff penderfyniadau eu gwneud yn unol â'r Ddeddf Hawliau Dynol (1998), Deddf Oedolion ag Analluogrwydd (yr Alban) 2000 a hawliau dynol rhyngwladol. Mae polisi Na Cheisier Dadebru Cardio-Anadlol Cymru Gyfan<sup>48</sup> yn cynnwys adran benodol sy'n ymdrin â galluedd meddyliol.
131. **(e)** Mae adroddiad blynyddol Ymchwiliad Cyfrinachol Cenedlaethol y DU gyfan i hunanladdiad yn cynnwys gwybodaeth am bobl ag anableddau dysgu sydd mewn cysylltiad â gwasanaethau iechyd meddwl. Bydd Rhaglen Adolygu Marwolaethau Pobl ag Anableddau Dysgu hefyd yn ystyried hunanladdiad fel achos marwolaeth ymhlith pobl ag anableddau dysgu.
132. Nododd Strategaeth Draws-lywodraethol Genedlaethol Lloegr ar gyfer Atal Hunanladdiad, a gyhoeddwyd yn 2012, feysydd gweithredu allweddol i ostwng nifer yr hunanladdiadau, gan gynnwys teilwra dulliau iechyd meddwl ar gyfer pobl ag anghenion penodol. Mae'r strategaeth, a ddiweddarwyd ym mis Ionawr 2017, yn cynnwys ymrwymiad i sicrhau bod gan bob ardal leol gynllun atal hunanladdiad amlasiantaethol erbyn mis Rhagfyr 2017.
133. Yn yr Alban, disgwylir i gynllun gweithredu newydd ar hunanladdiad gael ei gyhoeddi yn 2018. Yn yr Alban mae ffocws cryf ar hyfforddiant atal hunanladdiad er mwyn galluogi gweithwyr rheng flaen mewn gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau cyfiawnder troseddol i adnabod arwyddion bod unigolyn yn synio am ladd ei hun ac ymyrryd yn effeithiol, wedi eu hategu gan waith i leihau'r stigma sy'n gysylltiedig â hunanladdiad.

<sup>45</sup> <https://www.gov.uk/government/news/new-approach-to-care-for-the-dying-published>

<sup>46</sup> [www.resus.org.uk/dnacpr/decisions-relating-to-cpr/](http://www.resus.org.uk/dnacpr/decisions-relating-to-cpr/)

<sup>47</sup> <http://www.gov.scot/Resource/0050/00504976.pdf>.

<sup>48</sup> <http://www.wales.nhs.uk/documents/Welsh%20Policy%20-%20Rhannu%20a%20Chynnwys%20%E2%80%93%20Polisi%20Clinigol%20Peidiwch%20C3%A2%20Dechrau%20Adfywio%20Cardio-Pwlmonaidd%20%28DNACPR%29%20ar%20gyfer%20Oedolion%20yng%20Nghymru%20%28Chwefror%202015%29.pdf>



134. Mae Siarad â Fi 2 - Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed Cymru 2015-2020<sup>49</sup> yn mabwysiadu dull gweithredu wedi'i dargedu, gan nodi grwpiau penodol o bobl sy'n arbennig o agored i niwed, gan gynnwys rhai pobl anabl.

#### **Gwaith a chyflogaeth, Erthygl 27 (Materion 20-21)**

135. (20) Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diogelu pobl anabl rhag gwahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol ym maes cyflogaeth, gan gynnwys arferion recriwtio; gall person anabl apelio i Dribiwnlys Cyflogaeth os yw o'r farn bod rhywun wedi gwahaniaethu yn ei erbyn ar sail anabledd ym maes cyflogaeth. Câi hawliadau eraill yn ymwneud â thorri Deddf Cydraddoldeb 2010 ar sail anabledd eu gwneud i lys sifil.

136. Mae gan gyflogwyr ddyletswydd i ddarparu addasiadau rhesymol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Os bydd addasiadau yn mynd y tu hwnt i'r hyn y gellid yn rhesymol ddisgwyl i gyflogwr ei ddarparu, mae Mynediad i Waith<sup>50</sup> yn rhoi cymorth ymarferol ac ariannol er mwyn talu'r costau ychwanegol hyn. Mae Gwasanaeth Cymorth Iechyd Meddwl rhaglen Mynediad i Waith yn cynnal treial dwy flynedd lle y rhoddir cymorth wedi'i dargedu i brentisiaid â chyflyrau iechyd meddwl.

137. Ymhlith y mentrau i gynyddu nifer y cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer pobl anabl mae cynllun 'Disability Confident' newydd Llywodraeth y DU (a lanswyd ym mis Tachwedd 2016); mae cyflogwyr yn ymrwymo i gynnig cyfweiliadau i ymgeiswyr anabl sy'n bodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer swyddi a'u hystyried yn ôl eu gallu yn unig. Mae mwy na 4000 o sefydliadau wedi ymuno â'r cynllun.

138. Mae 3.5m o bobl anabl o oedran gweithio yn gweithio yn y DU<sup>51</sup>, sy'n gynydd o 292,000 ers yr un chwarter yn 2015. Gan gydnabod pwysigrwydd parhau â'r duedd hon tuag at i fyny, mae amrywiaeth o gymorth cyflogaeth prif ffrwd ac arbenigol ar gael drwy'r Ganolfan Byd Gwaith. Mae cymorth prif ffrwd yn cynnwys hyfforddwyr gwaith y Ganolfan Byd Gwaith, sy'n darparu cymorth dychwelyd i'r gwaith personol, gan gynnwys cyfleoedd gwirfoddoli, cymorth sgiliau, profiad gwaith a gweithgareddau lleol drwy'r Gronfa Cymorth Hyblyg. Mae pob hyfforddwr gwaith wedi'i hyfforddi i gefnogi pobl ag anghenion cymhleth, gan gynnwys pobl anabl.

139. Mae cymorth arbenigol arall yn cynnwys:

- Y Lwfans Menter Newydd sy'n helpu pobl ddi-waith i ddechrau eu busnes eu hunain. Mae gan tua 23% o'r bobl sydd wedi dechrau ers mis Ebrill 2011 anabledd hunanddatganedig<sup>52</sup>;

<sup>49</sup> <http://gov.wales/docs/dhss/publications/150716strategy1cy.pdf>

<sup>50</sup> <https://www.gov.uk/access-to-work>

<sup>51</sup> Yn chwarter cyntaf 2017

<sup>52</sup> [https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/605672/nea-official-stats-to-december-2016.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/605672/nea-official-stats-to-december-2016.pdf) Nid yw nifer y rhai sy'n dechrau ar y cynllun yn cyfateb i nifer y bobl ar y cynllun, am ei bod yn bosibl dechrau sawl gwaith.

- Dewis Gwaith sy'n helpu pobl sy'n wynebu rhwystrau cymhleth cysylltiedig ag anabledd i gael gwaith;
  - Mae Cymorth Cyflogadwyedd Arbenigol yn rhoi cymorth cyflogaeth arbenigol i bobl anabl sy'n wynebu rhwystrau arbennig o gymhleth i gael gwaith.
140. Lansiodd Gogledd Iwerddon ei Strategaeth Cyflogaeth ar gyfer Pobl ag Anableddau ym mis Mawrth 2016, er mwyn gwella gyrfaedd i bobl anabl a'u siawns o gael gwaith. Bydd Fforwm Rhanddeiliaid Cyflogaeth i Bobl Anabl, sy'n cynnwys aelodau anabl, yn monitro cynnydd.
141. Mae 'Fairer Scotland for Disabled People' yn cynnwys ymrwymiad i haneru, o leiaf, y bwloch cyflogaeth rhwng pobl anabl a gweddill y boblogaeth sy'n gweithio. Mae gwasanaethau newydd eu datganoli ers mis Ebrill 2017 yn targedu pobl anabl a byddant yn mesur faint o bobl anabl a gaiff eu helpu i mewn i waith. Mae mesurau eraill i leihau diweithdra ymhlith pobl ifanc ag anableddau yn cynnwys cynyddu nifer yr unigolion yn y grŵp hwn sy'n ymgymryd â Phrentisiaethau Modern.
142. (21) Ar hyn o bryd nid oes unrhyw fesur swyddogol o'r bwloch cyflog ar gyfer gwaith o'r un gwerth ymhlith pobl ag anableddau a phobl heb anableddau. Mae mesur y bwloch cyflog pobl ag anableddau a phobl heb anableddau yn broses gymhleth; mae angen goresgyn cyfyngiadau i ffynonellau data a methodolegau er mwyn ei fesur yn fanwl gywir. Dengys amcangyfrifon o ail chwarter 2015 fod pobl anabl wedi cael cyfradd cyflog yr awr o tua £12.20 ar gyfartaledd, o gymharu â £14.10<sup>53</sup> ar gyfer pobl nad oeddent yn anabl.
143. Nododd papur gwyrdd Llywodraeth y DU, Gwella Bywydau: Gwaith, Iechyd ac Anabledd<sup>54</sup> y nod o sicrhau bod pobl ag anableddau a chyflyrau iechyd yn cyflawni eu potensial llawn yn y gwaith, gan fynd cyn belled ag y bydd eu talent a'u brwdfrydedd yn mynd â hwy. Holodd y papur gwyrdd am rôl y llywodraeth o ran sicrhau y gall pobl anabl wneud cynnydd yn eu gwaith, gan gynnwys cael swyddi uwch. Mae ymatebion i'r ymgynghoriad yn cyfrannu at y sail dystiolaeth ynghylch sut y gellid helpu cyflogwyr i annog pobl anabl i wneud cynnydd yn eu gwaith a sut y gallant gael gafael ar wybodaeth a chymorth.

### **Safon byw ddigonol a diogelwch cymdeithasol, Erthygl 28 (materion 22-23)**

144. (22) Mae'r system les yn parhau i ddarparu system gynhwysfawr o gymorth ar gyfer pobl anabl yn y DU; yn 2015-16, gwariodd Llywodraeth y DU bron i £17 biliwn ar Daliad Annibyniaeth Personol a Lwfans Byw i'r Anabl, o gymharu ag £11 biliwn yn 2006-07<sup>55</sup>. Bwriadwyd i ddiwygiadau i system les Llywodraeth y DU, a weithredwyd yn dilyn argyfwng ariannol 2008, sicrhau safonau byw digonol ac

<sup>53</sup> <https://www.gov.uk/government/publications/fulfilling-potential-outcomes-and-indicators-framework-second-annual-progress-report>

<sup>54</sup> [https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/571410/welsh-work-and-health-green-paper-improving-lives.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/571410/welsh-work-and-health-green-paper-improving-lives.pdf)

<sup>55</sup> <https://www.gov.uk/government/publications/benefit-expenditure-and-caseload-tables-2017> mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar wariant mewn termau real yn 2017/18.

maent yn cynnwys mesurau diogelu arbennig ar gyfer pobl sy'n agored i niwed. Er enghraifft, mae Credyd Cynhwysol yn gwella cymorth i bobl ag anableddau, gan gynnwys anableddau cudd.

145. Nid oes gan Llywodraeth y DU un system fonitro benodol â dangosyddion penodol sy'n gymwys i bob polisi. Mae pob awdurdod cyhoeddus yn ystyried y ffordd orau o fonitro effeithiau ei bolisiau, gan roi sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a bodloni gofynion cyfreithiol Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae gwerthuso effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd polisiau a cheisio gwelliannau lle y bo'n bosibl yn arfer safonol, gan gynnwys ar gyfer polisiau ar ddiwygio'r system les. Pan nodir problemau - drwy wybodaeth am berfformiad, tueddiadau o ran data, gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol neu'r cyhoedd - cânt eu hystyried yn llawn er mwyn penderfynu a oes angen newid y polisi neu'r ffordd y caiff ei weithredu. At hynny, mae adolygiadau annibynnol (megis Asesiadau Gallu i Weithio<sup>56</sup>) wedi'u cynnal gan weithwyr proffesiynol uchel eu parch y tu allan i'r llywodraeth.
146. Fel rhan o gytundeb i roi diwygiadau lles Llywodraeth y DU ar waith yng Ngogledd Iwerddon, rhoddwyd cyllid penodol ar gyfer pobl anabl, a all hefyd fod yn gymwys i gael cymorth ariannol ychwanegol sy'n gysylltiedig â chostau tai.
147. Mae Llywodraeth yr Alban yn ymrwymedig i fynd i'r afael â'r cylch rhyng-genhedlaeth o dlodi a chyflwynodd Fil Tlodi Plant (yr Alban) gerbron Senedd yr Alban ym mis Chwefror 2017; bydd yn pennu targedau heriol sy'n seiliedig ar incwm ar gyfer tlodi plant.
148. **(23a)** Cynhwysodd Llywodraeth y DU fesurau diogelu yn y system les er mwyn diogelu pobl sy'n agored i niwed (gan gynnwys pobl anabl) sydd leiaf abl i gynyddu eu henillion. Mae mesurau diogelu yn cynnwys eithriad rhag y cap ar fudd-daliadau (sy'n pennu uchafswm y budd-daliadau lles y gall cartref eu cael) ar gyfer pobl sy'n cael y prif fudd-daliadau sy'n gysylltiedig ag anabledd.
149. Cred Llywodraeth y DU, er mwyn gwneud gwahaniaeth ystyrion i fywydau plant a theuluoedd dan anfantais, fod angen mabwysiadu dull gweithredu sy'n mynd y tu hwnt i'r rhwyd diogelwch a ddarperir gan y system les a mynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi plant ac anfantais. Dyna pam y dileodd dargedau ar gyfer tlodi plant a oedd yn seiliedig ar incwm a rhoi mesurau statudol o ddiweithdra ymhlith rhieni a chyrhaeddiad addysgol plant yn eu lle. Darparodd Improving Lives: Helping Workless Families<sup>57</sup> fframwaith ar gyfer parhau i ganolbwyntio ar wella canlyniadau plant, nawr ac yn y dyfodol.

---

<sup>56</sup> <https://www.gov.uk/employment-support-allowance>

<sup>57</sup> <https://www.gov.uk/government/publications/improving-lives-helping-workless-families>

150. Mae Strategaeth Tlodi Plant: Asesu Cynnydd 2016: Adroddiad Cryno<sup>58</sup>, a luniwyd gan Lywodraeth Cymru, yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran mynd i'r afael â thlodi plant a gwell canlyniadau teuluoedd incwm isel yng Nghymru.
151. **(b)** Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi dadansoddiad cronol o effeithiau polisiau treth, llesiant a gwariant cyhoeddus ar aelwydydd<sup>59</sup>. Dangosodd y cyhoeddiad diwethaf ym mis Mawrth 2017 fod treth, llesiant a gwariant cyhoeddus yn y DU yn cael eu hailddosbarthu i raddau helaeth: mae aelwydydd yn y ddengradd incwm isaf yn cael mwy na £4 o wariant cyhoeddus am bob £1 o dreth y maent yn ei thalu, tra bod aelwydydd yn y ddengradd incwm uchaf yn cyfrannu mwy na £5 mewn treth am bob £1 o wariant cyhoeddus y maent yn ei chael.
152. Mae Llywodraeth yr Alban yn bwriadu mabwysiadu ymagwedd polisi wahanol i Lywodraeth yr Alban pan gaiff elfennau o'r system les eu datganoli, gan gymryd safbwynt cyfannol o ran y ffordd orau y gall nawdd cymdeithasol weithio gyda'r system ehangach o gyfrifoldebau datganoledig sy'n effeithio ar fywydau pobl anabl<sup>60</sup>.
153. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi<sup>61</sup> ei hymchwil i effaith diwygiadau Llywodraeth y DU i'r system dreth a'r system fudd-daliadau yng Nghymru, gan gynnwys assiad o'r effaith gronol.
154. **(c)** Darperir hyfforddiant ar gydraddoldeb i swyddogion sy'n cymryd rhan yn y broses o ddatblygu a gweithredu polisiau y mae'n rhaid iddynt ystyried effeithiau posibl ar bobl â nodweddion gwarchoddedig a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Nid ystyrir bod statws ymfudo yn nodwedd warchoddedig.
155. Yn yr Alban, mae gan ALLau ddyletswydd o dan Ddeddf Gwaith Cymdeithasol yr Alban 1968 i drefnu gofal ar gyfer pobl yr aseswyd bod ei angen arnynt, y dylid ei ddarparu ar sail gyfartal â phobl eraill.
156. **(ch)** Mae Deddf Plant a Theuluoedd 2014 yn sicrhau bod y system anghenion addysgol arbennig ac anabledau yn canolbwyntio'n fwy ar yr unigolyn ac yn fwy ymatebol i anghenion rhieni. Mae'n nodi bod yn rhaid i ALLau ystyried barn, dymuniadau a theimladau rhieni a helpu rhieni i wneud penderfyniadau hyddysg. At hynny, mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig yn cyflwyno hawliau i rieni plant ag anabledau fynnu bod eu hanghenion eu hunain yn cael eu hasesu. Gall rhieni wneud hawliad gwahaniaethu ar sail anabledd yn erbyn darparwyr y blynyddoedd cynnar, ysgolion a sefydliadau ôl-16.

---

<sup>58</sup> <http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/cyp/161212-child-poverty-strategy-progress-report-2016-cy-v2.pdf>

<sup>59</sup> <https://www.gov.uk/government/publications/budget-2016-documents>.

<sup>60</sup> [https://consult.scotland.gov.uk/social-security/social-security-in-scotland/user\\_uploads/consultation-on-social-security-in-scotland---full-version.pdf](https://consult.scotland.gov.uk/social-security/social-security-in-scotland/user_uploads/consultation-on-social-security-in-scotland---full-version.pdf)

<sup>61</sup> <http://gov.wales/topics/people-and-communities/welfare-reform-in-wales/analysing-reforms/?skip=1&lang=cy>

157. **(d)** Mae'r Asesiad Gallu i Weithio yn asesiad gweithrediadol sy'n penderfynu a yw unigolyn yn gymwys i gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ac elfennau o Gredyd Cynhwysol. Nid oes unrhyw hawl sy'n seiliedig ar gyflyrau iechyd i gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth; mae'r Asesiad Gallu i Weithio yn asesu unigolion yn erbyn cyfres o ddisgrifyddion gweithrediadol er mwyn nodi sut mae eu salwch neu eu hanabledd yn effeithio ar eu gallu i weithio a chyflawni gweithgareddau bob dydd. Mae Llywodraeth y DU yn ymrwymedig i alluogi pobl anabl i gael yr un cyfleoedd i weithio ag sydd gan bobl eraill (yn unol â'u hawl i gael gwaith ar sail gyfartal), wrth sicrhau bod pobl na allant weithio oherwydd anabledd, neu gyflyrau iechyd, yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Gofynnodd yr ymgynghoriad ar bapur gwyrdd 'Improving Lives: Work, Health and Disability' sut y gellid gwella asesiadau gallu i weithio; mae Llywodraeth y DU yn ystyried yr ymatebion cyn penderfynu ar y camau nesaf.

#### **Cyfranogi mewn bywyd gwleidyddol a chyhoeddus, Erthygl 29 (mater 24)**

158. Mae Adran 18 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 yn ei gwneud yn ofynnol i orsafoedd pleidleisio dynodedig sicrhau, hyd y gellir, eu bod yn hygyrch i bleidleiswyr anabl. Dylai fod gan orsafoedd pleidleisio ddyfais sy'n galluogi pobl ddall/rhannol ddall i bleidleisio'n annibynnol, ac mae'n rhaid arddangos copïau sampl print bras o'r papur pleidleisio (a darparu copïau a ddelir â llaw os gofynnir amdanynt). Gall staff gorsafoedd pleidleisio helpu pobl anabl i bleidleisio neu gall y pleidleisiwr fynd â rhywun gyda hwy i'w cynorthwyo. Gall pobl anabl bleidleisio drwy'r post, neu benodi dirprwy i bleidleisio ar eu rhan, yn yr un modd â phleidleiswyr cymwys eraill. Mae deddfwriaeth ar gyfer etholiadau yn yr Alban yn cynnwys darpariaethau i sicrhau y gall unrhyw un sy'n dymuno pleidleisio wneud hynny ar sail gyfartal.

#### **Cyfranogi mewn bywyd diwylliannol, gweithgareddau hamdden, adloniant a chwaraeon, Erthygl 30 (mater 25)**

159. Mae Llywodraeth y DU yn disgwyl i bob chwaraeon a chlwb chwaraeon gyflawni eu rhwymedigaeth gyfreithiol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i wneud addasiadau rhesymol gan alluogi pobl anabl i gael mynediad i leoliadau chwaraeon ar sail gyfartal. Mae gwaith yn parhau i sicrhau amgylchedd cwbl gynhwysol, gan adeiladu ar Gemau Olympaidd Llundain 2012 a gydnabyddir fel y Gemau mwyaf hygyrch. Drwy gefnogi Pencampwriaethau Para-Athletau'r Byd ym mis Gorffennaf 2017 ym Mharc Olympaidd y Frenhines Elisabeth yn Llundain, mae Llywodraeth y DU yn parhau i ddangos ei hymrwymiad i newid agweddau tuag at anabledd a chanfyddiadau ohono, a gwneud lleoliadau chwaraeon yn fwy hygyrch.

#### **C. Rhwymedigaethau penodol**

### Casglu ystadegau a data, Erthygl 31 (mater 26)

160. Mae'r DU yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb i bobl anabl, sy'n seiliedig ar gyfuniad o arolygon arferol ac ad hoc, a data gweinyddol. Mae'r ffynonellau yn amrywio rywfaint rhwng y pedair gwlad gyfansoddiadol, ond maent yn ymgorffori diffiniadau a chwestiynau arolygu wedi'u cysoni lle y bo'n briodol. Mae'r data yn cwmpasu agweddau eang eu cwmpas gan gynnwys iechyd<sup>62</sup>, addysg<sup>63</sup>, cyfranogiad cymdeithasol<sup>64</sup>, incwm a chyflogaeth<sup>65</sup>, yn ogystal ag agweddau'r cyhoedd tuag at anabled. Datblygodd y DU ddiffiniadau o anabledau a chwestiynau am anabled a lywiwyd gan safonau rhyngwladol a gweithgarwch ymgysylltu cyhoeddus â sefydliadau pobl anabl.
161. Yng Ngogledd Iwerddon, datblygodd Swyddfa'r Prif Weinidog a'r Dirprwy Brif Weinidog (a oedd yn gyfrifol am bolisi mewn perthynas ag anabledd cyn mis Mai 2016) gyfres o ddangosyddion allweddol er mwyn helpu i fonitro'r Strategaeth Anabledd (Medi 2012 – Mawrth 2017). Mae ymchwilyr o Brysgol Queen's a Phrifysgol Ulster yn cynnal astudiaeth annibynnol i lywio'r gwaith o ddatblygu data mewn perthynas â pholisi anabledd; disgwylir i argymhellion ynghylch diffiniadau o anabledd, ansawdd bywyd a theulu gael eu gwneud yn ddiweddarach yn 2017.
162. Bydd Strategaeth Tystiolaeth ar gyfer Cydraddoldeb yr Alban (y disgwylir iddi gael ei chyflwyno ym mis Mehefin 2017) yn nodi bylchau mewn tystiolaeth sy'n ymwneud ag anabledd. Bydd yn nodi cynlluniau ar gyfer penderfynu ar flaenoriaethau ac yn ceisio mynd i'r afael â'r rhain gyda phartneriaid.

### Cydweithredu rhyngwladol, Erthygl 32 (materion 27 ac 28)

163. (27) Bydd y Bil Diddymu Mawr yn trosi cyfraith yr UE yn gyfraith gwlad pan fydd y DU yn gadael yr UE. Golyga hyn, lle y bo'n ymarferol ac yn briodol, y bydd yr un rheolau a deddfau yn gymwys ar y diwrnod ar ôl i'r DU adael yr UE ag a oedd yn gymwys cyn hynny. Bydd yr holl fesurau diogelu yn Neddf Cydraddoldeb 2006 a Deddf Cydraddoldeb 2010 ac mewn deddfwriaeth gyfatebol yng Ngogledd Iwerddon yn dal i fod yn gymwys. Bydd y dull hwn o weithredu yn cadw hawliau a rhwymedigaethau sydd eisoes yn bodoli yn y DU o dan gyfraith yr UE a darparu sail gadarn ar gyfer datblygiadau pellach i gyfraith gwlad. Bydd Llywodraeth y DU yn sicrhau y caiff unrhyw effeithiau ar gyfer pobl anabl eu hystyried yn ofalus yn ystod cyd-drafodaethau ynghylch y gydberthynas â'r UE yn y dyfodol.
164. (28) Amcangyfrifir bod gan 800 miliwn o bobl mewn gwledydd sy'n datblygu anabledd. Mae Adolygiad Dwyochrog o Waith Datblygu 2016 yn ymrwymo Llywodraeth y DU i atgyfnerthu ei

<sup>62</sup> <http://www.content.digital.nhs.uk/catalogue/PUB22610>

<sup>63</sup> <https://www.hesa.ac.uk/data-and-analysis/students/widening-participation>

<sup>64</sup> [http://funding.sportengland.org/research/key-influences/sport-and-disability/;](http://funding.sportengland.org/research/key-influences/sport-and-disability/)  
<https://www.eurofound.europa.eu/surveys/european-quality-of-life-surveys>

<sup>65</sup> <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/data/sets/labourmarketstatusofdisabledpeoplea08>

gwaith datblygu rhyngwladol ar anabledd a sefydlu ei hun fel arweinydd byd-eang yn y maes hwn. Uchelgais Llywodraeth y DU yw sicrhau y caiff pobl ag anableddau eu cynnwys yn systematig ac yn gyson mewn cymorth rhyngwladol a chymorth dyngarol a'u bod yn cael budd ohonynt.

### **Gweithredu a monitro cenedlaethol, Erthygl 33 (mater 29)**

165. Canolbwynt Llywodraeth y DU ar gyfer anabledd yw'r Swyddfa dros Faterion Pobl Anabl (ODI), sy'n cefnogi portffolio traws-lywodraethol y Gweinidog dros Bobl Anabl. Mae'r ODI yn rhoi cyngor i bob rhan o'r llywodraeth ar faterion sy'n ymwneud ag anabledd ac yn hwyluso trafodaethau yn uniongyrchol â phobl anabl. Nid yw'r Confensiwn, fel y'i cadarnhawyd gan y DU, yn gymwys i Dirioaethau Tramor. Mae Llywodraeth y DU yn annog tiriogaethau i ofyn am i'r cytundebau hawliau dynol rhyngwladol a gadarnhawyd gan y DU gael eu hymestyn i'w cwmpasu, ond dim ond pan all y tiriogaethau roi'r cytundebau hyn ar waith y mae'n eu hymestyn i'w cwmpasu.
166. Mae gan Lywodraeth y DU a'i gweinyddiaethau datganoledig amrywiaeth o rwydweithiau a systemau ymgysylltu er mwyn sicrhau bod pobl anabl yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu polisïau. Ategir trefniadau o'r fath gan weithgarwch ymgysylltu sy'n ymwneud â pholisïau penodol megis ymgynoriadau ar bapur gwyrdd Improving Lives a Deddf Gofal 2014.
167. Gan fod Mecanwaith Annibynnol y DU yn cynnwys sawl corff - y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban, Comisiwn Hawliau Dynol Gogledd Iwerddon a Chomisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon - daw'r cyllid o sawl ffynhonnell. Ariennir y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol gan Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth, a gwblhaodd Adolygiad Cyllidebol Cynhwysfawr manwl yn 2013, gan roi amcangyfrif o isafswm cyllid y byddai ei angen (£17.1m) er mwyn i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol gyflawni ei swyddogaethau statudol craidd.

### **Gwaith dilynol ar y trafodion o dan y Protocol Dewisol**

#### **Ymateb i'r materion a godwyd ym mharagraff 30 o'r rhestr o faterion**

168. Mae Llywodraeth y DU yn parhau i arddel y safbwynt a nodwyd yn ei hymateb (CRPD.C.17.R.3-ENG) i adroddiad y weithdrefn ymchwilio o dan erthygl 6 o'r Protocol Dewisol. Bydd y deialog adeiladol drwy'r astudiaeth hon hefyd yn dangos ymrwymiad Llywodraeth y DU i ddatblygu hawliau a gwella profiad gwirioneddol pobl anabl.